



# YMATEB CYMUNEDAU I COVID

## DR SARAH LLOYD-JONES A DR DUNCAN HOLTOM

## DIOLCHIADAU

Hoffai'r awduron ddiolch i'r pumdeg un o bobl o'r gymuned a'r sectorau gwirfoddol a chyhoeddus a gyfrannodd at yr ymchwil hwn. Mae eu parodrwydd i rannu eu hamser, eu profiadau a'r hyn a ddysgwyd yn hollbwysig i wneud yr ymchwil hwn yn bosib.

Hoffai'r awduron ddiolch hefyd i Heather Pells a Val Williams am eu cyfraniadau pwysig i'r ymchwil.

I gloi, hoffem ddiolch i Chris Johnes yn yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau am ei sylwadau, cyflwyniadau a'i gefnogaeth i'r ymchwil ac i Emma Shepherd yn yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau am ei help gyda dylunio a lansio'r adroddiad.

## CYNNWYS

Diolchiadau .....	2
Crynodeb .....	4
Ffigwr 1. Ymateb aml-haenog i'r argyfwng .....	5
Cyflwyniad.....	10
Ffordd o weithio a dulliau .....	12
Pwysigrwydd asedau sy'n seiliedig ar leoedd .....	13
Ymatebion cymunedau a siroedd i'r argyfwng .....	15
Cryfderau a chyfyngiadau ymatebion cymunedol .....	24
Ymateb aml-haenog .....	29
Cydweithio a chydlynu rhwng mudiadau .....	32
Gwersi allweddol ar gyfer y dyfodol .....	38
Llyfryddiaeth.....	41

Dechreuodd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ar y 23ain o Fawrth 2020. Roedd yn ofynnol i bobl aros gartref ar wahân i ddibenion cyfyngedig iawn; caewyd ysgolion a busnesau a gwasanaethau nad oedden nhw'n allweddol, a chynghorwyd y mwyaf agored i niwed i "warchod" ac aros gartref drwy'r amser. Er bod cymunedau wedi wynebu argyfyngau o'r blaen, er enghraifft, llifogydd, roedd nifer yn teimlo bod maint a natur yr argyfwng hwn yn ddigynsail yn ein hanes.

### PWRPAS YR YMCHWIL

---

Comisiynodd [Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau](#) a phartneriaeth [Llechi, Glo a Chefn Gwlad](#) yr ymchwil hwn i ddeall i ba raddau roedd mudiadau cymunedol oedd eisoes yn bodoli mewn cymdogaethau yn caniatáu cefnogaeth well i'w poblogaethau yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Edrychodd yr ymchwil hefyd ar sut roedd cyrff sirol yng Nghymru (yn bennaf, awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol) yn cynllunio ac yn darparu cymorth i'r cymunedau hynny ac i ba raddau y gwnaed hynny gyda mudiadau cymunedol.

### FFORDD O WEITHIO A DULLIAU

---

Astudiaeth ymchwil ansoddol oedd hon yn bennaf. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar saith sir yng Nghymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro a Wrecsam). Ar draws y saith ardal, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr o 19 o fudiadau a grwpiau cymunedol a phob un o'r saith cyngor gwirfoddol sirol ac awdurdod lleol. Cafwyd sylwadau ychwanegol ar ôl cyfweld â'r rhai oedd â chysylltiad agos â'r ymateb i'r argyfwng ar lefel gymunedol neu genedlaethol, fel cynghorwyr a sefydliadau cenedlaethol.

### YMATEB AML-HAENOG I'R ARGYFWNG

---

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y rôl y chwaraeodd grwpiau a mudiadau cymunedol a'r sector gwirfoddol, yn enwedig y rhai a oedd yn gweithio gyda chymunedau penodol, i gefnogi pobl yn ystod y cyfnod clo. Serch hynny, fel mae ffigwr 1 yn ei ddangos, profodd cymunedau ledled Cymru ymateb aml-haenog i'r cyfnod clo ac mae deall hyn yn bwysig er mwyn rhoi ymateb y gymuned yn ei gyd-destun.

## FFIGWR 1. YMATEB AML-HAENOG I'R ARGYFWNG

Lleol ----- Cenedlaethol allwedd

Cymdogion da: cefnogaeth anffurfiol gan aelodau'r gymuned i helpu'r bobl hynny roeddent nhw'n gwybod bod angen help arnynt.

Grwpiau cymorth cydfuddiannol a drefnwyd gan arweinydd lleol a allai fod yn aelod etholedig o gyngor, yn weithiwr cymunedol (yn gweithio mewn swyddogaeth breifat), neu'n unigolyn (neu grwpiau o bobl) a gamodd ymlaen i helpu.

Sefydliadau cymunedol a addasodd neu a ail-drefnodd eu gwaith i gwrdd â'r heriau oedd yn wynebu eu cymuned (p'un a oedd hynny'n ddaearyddol neu'n gymuned o ddiddordeb/ anghenion).

Ymatebion awdurdodau lleol, a ganolbwyntiodd yn benodol ar y bobl oedd yn gwarchod, y rhai yr ystyriwyd oedd yn agored i niwed a oedd eisoes yn cael mynediad

Cymorth cymdeithasau tai i'w tenantiaid.

Ymatebion y Senedd a ganolbwyntiodd ar e.e. addysg, cyllid i fusnesau a mudiadau gwirfoddol, gwybodaeth a chontractau cymorth.

Ymatebion llywodraeth y DU fel y cynllun ffyrlo a'r newidiadau i'r system fudd-daliadau/Credyd Cynhwysol a chontractau cymorth y DU.

Ar eu gorau, roedd yr haenau hyn yn ategu ac yn ychwanegu at ei gilydd, yn gweithio ar y cyd (neu o leiaf ddim yn niweidio ei gilydd) ac yn creu seilwaith cymorth a oedd yn canolbwyntio ar:

- darparu a rhannu gwybodaeth;
- nodi'r rheini a oedd angen help neu gefnogaeth;
- diwallu anghenion sylfaenol pobl, yn bennaf, bwyd a meddyginiaeth;
- mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol; unigrwydd<sup>1</sup> a diflastod; a
- helpu pobl i ymdopi.

## PWYSIGRWYDD ASED AU SY'N SEILIEDIG AR LEOEDD

---

Roedd natur yr argyfwng, gyda chyfyngiadau symud, yn pwysleisio pwysigrwydd lleoedd (neu gymunedau) a'u hasedau (cryfderau), fel:

- asedau sefydliadol, fel mudiadau cymunedol, ysgolion a busnesau lleol;
- cyfalaf dynol y bobl sy'n byw mewn lle, gan gynnwys galluoedd a sgiliau arwain a rheoli (e.e. wrth gynllunio a chydlyn);
- cyfalaf cymdeithasol y bobl sy'n byw mewn lle, gan gynnwys cryfder rhwydweithiau cymdeithasol (fel cysylltiadau rhwng pobl, busnesau lleol, mudiadau cymunedol a'r awdurdod lleol); lefelau ymddiriedaeth yn y gymuned; a gwerthoedd a diwylliant y gymuned (fel traddodiad o gefnogaeth/cymorth cydfuddiannol ac ymdeimlad o ysbryd cymunedol); a
- cyfalaf naturiol yn/gerllaw'r lle (fel mynediad i gefn gwlad a'r arfordir).

## PWYSIGRWYDD MUDIADAU CYMUNEDOL

---

Chwaraeodd nifer o'r mudiadau cymunedol hynny a oedd yn weithredol yn ystod yr argyfwng ran allweddol wrth nodi a defnyddio asedau yn seiliedig ar leoedd, fel:

- meithrin a chefnogi ysbryd cymunedol ac awydd pobl i helpu eraill drwy roi o'u hamser (gwirfoddoli), arian a rhoddion (e.e. cyfarpar diogelu personol (PPE) a bwyd);

---

<sup>1</sup> Mae unigrwydd yn deimlad goddrychol sy'n disgrifio'r teimlad nad oes gennym yr ansawdd a/neu'r ystod o berthnasoedd cymdeithasol rydym eu heisiau, ac sy'n golygu y gallwn deimlo'n unig, hyd yn oed yng nghwmni eraill. Mewn cyferbyniad, mae ynysigrwydd cymdeithasol yn wrthrychol ac yn disgrifio nifer y perthnasoedd cymdeithasol sydd gennym ([Nesom et al., 2020](#)).

- defnyddio rhwydweithiau a chysylltiadau cymdeithasol i gael gwybodaeth am bwy oedd angen cymorth a phwy allai gynnig cymorth i lifo ar draws cymunedau; ac
- annog a hyrwyddo arweinyddiaeth a gweithgareddau o dan arweiniad pobl mewn cymunedau.

Gwnaed hynny mewn ffyrdd a fyddai wedi bod yn anodd neu'n amhosibl i bobl a sefydliadau ar lefel sirol neu genedlaethol fod wedi'u gwneud mor effeithlon a/neu mor effeithiol, ac roedd hyn yn rhan hanfodol o'r ymateb i'r argyfwng.

Roedden nhw hefyd yn gallu:

- ymateb mewn ffordd fwy cynhwysol, oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn neu'n canolbwyntio ar bobl, gan nodi pobl agored i niwed nad oedden nhw'n hysbys i'r gwasanaethau a gweithio gydag ystod ehangach o bobl nag y gallai gwasanaethau cyhoeddus wedi'u targedu gyda throthwyon mwy strwythuredig ar gyfer ymyrraeth;
- gweithio gyda'r gymuned gyfan, a oedd yn cael gwared ar y stigma o ofyn am help a'i dderbyn; ac
- ymateb yn gyflymach gyda mwy o ystwythder na sefydliadau mwy, oherwydd amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys; maint a ffocws (roedden nhw'n gweithio mewn un lle ac yn dechrau gyda chylch gwaith cymunedol ehangach), llai o ddiffyg sefydliadol a strwythurau rheoli mwy gwastad, lle'r oedd y rhai oedd yn gwneud penderfyniadau yn agosach at y problemau a oedd, ynghyd â llai o fiwrocratiaeth, yn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau yn gyflymach. Mewn cyferbyniad, gellid cymharu'r her o addasu ac aildrefnu sefydliadau mawr â throi tancer mawr.

Serch hynny, canfu'r ymchwil hefyd fod:

- nifer fawr o fudiadau cymunedol yn fregus oherwydd, er enghraifft, roedden nhw'n dibynnu ar ymddiriedolwyr neu wirfoddolwyr hŷn a gafodd eu gorfodi i gamu nôl, ac er bod yr argyfwng wedi bywiogi nifer o bobl, roedd y gofynion corfforol ac emosiynol ymhlith staff a gwirfoddolwyr yn sylweddol, ac yn bygwth cynaliadwyedd hirdymor yr ymateb;
- weithiau roedd prinder sgiliau ac arbenigedd ymhlith gwirfoddolwyr a staff i ddelio â'r anghenion difrifol a/neu gymhleth a oedd yn wynebu rhai pobl, gan gynyddu gofynion emosiynol y rôl; a
- roedd hyblygrwydd a chyflymder ymateb y sector, tra'n gryfder allweddol, hefyd yn achosi risg, er enghraifft, i ddiogelwch personol a diogelu ac, mewn rhai achosion, cymerodd mudiadau cymunedol neu grwpiau cymorth cydfuddiannol risgiau na allai'r sector cyhoeddus, sy'n cael ei rheoleiddio'n fwy, eu cymryd.

## YMATEB I'R HER A CHYDWEITHIO

---

Ysgogodd yr argyfwng weithredu a rhoddodd eglurder pwrpas. O ystyried natur a chyflymder digynsail yr argyfwng, roedd arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel o'r ymateb yn hanfodol. Mae'r ymchwil yn dangos bod pobl o fewn pob haen yn teimlo balchder mawr yn y ffordd y gwnaethon nhw ac eraill - staff, gwirfoddolwyr ac aelodau'r gymuned - addasu i'r

sefyllfa, ymateb yn hyblyg ac “ymateb i'r her”. Roedd rhai yn teimlo eu bod wedi'u bywiogi gan eu rôl a'r buddion amlwg a welsant o'u gwaith.

Roedd cyflymder yr argyfwng yn golygu bod cryfder y perthnasoedd a'r strwythurau a oedd yn bodoli'n barod, y gellid adeiladu arnyn nhw neu eu haildrefnu (a oedd yn wahanol ar draws siroedd a sectorau), yn ffactor allweddol o ran pa mor effeithiol y gallai haenau a mudiadau gwahanol gydweithio. Roedd hynny'n golygu bod y cydweithio ar lefel sirol rhwng awdurdodau lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol yn amrywio o ran natur ac ansawdd rhwng siroedd. Ar ei orau, roedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol yn cydweithio'n agos i gynllunio sut gallent gefnogi gweithgareddau ar lefel gymunedol, a helpodd y gwaith partneriaeth i gryfhau perthnasoedd. Ar ei waethaf, gweithiodd Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac awdurdodau lleol yn gyfochrog â'i gilydd gyda fawr o gyfathrebu.

Dangosodd yr ymchwil hefyd yr anghysondebau yn yr ymateb rhwng siroedd ac o fewn siroedd. Roedd llawer o'r gweithgaredd ar lefel gymunedol wedi'i ddad-ganoli, wedi'i ddsbarthu ar draws miloedd o fudiadau cymunedol ac yn aml heb ei gydlynu, gyda'r gweithgaredd ar lefel sirol neu genedlaethol. Roedd yr ymateb hwn i'r argyfwng, o'r gwaelod i fyny, a defnyddio asedau yn seiliedig ar leoedd yn bwysig ac yn effeithiol mewn sawl ffordd, ond yn achosi anghysondebau anochel. Roedd ystod a maint y gweithredu anffurfiol, digymell, o dan arweiniad y gymuned, yn golygu ei bod yn anodd i awdurdodau lleol ac eraill oedd yn gweithredu ar lefel strategol, nodi lle roedd bylchau yn y gefnogaeth gymunedol neu i gynllunio'r ffordd orau o ddiwallu anghenion. Serch hynny, roedd rhai enghreifftiau o awdurdodau lleol yn darparu fframwaith ledled y sir y gallai mudiadau cymunedol gyfrannu ato; er enghraifft, yr hybiau yn Sir Benfro a'r rhwydwaith bwyd yng Nghaerdydd, a hefyd enghreifftiau o staff awdurdodau lleol yn gweithio gyda mentrau cymunedol.

At hynny, er nad oedd unrhyw a gafodd eu cyfweld yn gallu nodi unrhyw ardal neu gymuned lle na chafwyd unrhyw gefnogaeth, nid oedd darlun clir chwaith o beth gafodd ei gollu ac mae'n anodd barnu pa mor ddigonol oedd yr ymateb; er enghraifft, er bod yr ymateb o ran sicrhau mynediad at anghenion sylfaenol, fel bwyd, yn drawiadol, ceir pryderon na wnaethpwyd digon i fynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng ar iechyd meddwl pobl, a bod mentrau fel y cynllun ffyrlo, er yn bwysig, wedi oedi yn hytrach nag atal y cynnydd mewn diweithdra a thlodi.

## GWERSI ALLWEDDOL AR GYFER Y DYFODOL

---

Roedd natur yr argyfwng yn golygu bod asedau sy'n seiliedig ar leoedd (yr asedau hynny sy'n "glwm" â lle penodol) yn hanfodol, a chwaraeodd mudiadau cymunedol a grwpiau cymorth cydfuddiannol rôl allweddol wrth nodi, cysylltu a defnyddio'r asedau hyn. Mae cael isadeiledd o fewn cymuned, boed yn fudiad angor neu'n ganolfan gymunedol, yn rhoi ffocws ar weithredu cymunedol, ond nid yw'n rhagofyniad, gan fod y gweithredu cymunedol wedi digwydd hyd yn oed lle nad oedd mudiadau cymunedol yn bodoli'n barod.

Roedd natur organig, dad-ganolog ymateb y gymuned yn gryfder allweddol o'r ymateb i'r argyfwng, ond fel y nodwyd uchod, mae'n her, er enghraifft, i geisio cefnogi a chydlynu



gweithredu ar lefel gymunedol (e.e. i leihau dyblygu a nodi bylchau). Mae "gwneud dim niwed" yn bwysig fan hyn, ond mae'r argyfwng hefyd wedi dangos sut gall y wladwriaeth gefnogi gweithredu cymunedol drwy, er enghraifft, gynnig cyllid hyblyg. Roedd ansawdd y berthynas rhwng mudiadau cymunedol a'r sector gwirfoddol a gwasanaethau cyhoeddus yn bwysig iawn. Maen nhw'n gweithio orau pan maen nhw'n ystyried ei gilydd fel partneriaid gyda nod cyffredin ac yn cydnabod cryfderau ei gilydd yn ogystal â'u cyfyngiadau a'u gwendidau. Fodd bynnag, efallai bod cynnal y perthnasoedd a'r ffyrdd newydd o weithio a luniwyd yn ystod yr argyfwng yn heriol, a gallai fod yn haws llithro'n ôl i'r hen ffyrdd o weithio, a all fod yn fiwrocraidaidd ac yn canolbwyntio ar y gwasanaeth yn hytrach na'r person, (e.e. anhyblyg ac "ynysig"). Yn gysylltiedig â hyn, mae angen adolygu'r berthynas rhwng y sawl sy'n cyllido rhwng gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol neu gymunedol a beth yw ei bwrpas; er enghraifft, dangosodd y cyfnod clo sut gall cyllid anghystadleuol, heb ei dargedu, alluogi ffyrdd newydd o weithio ar lefel gymunedol.

I gloi, er gwaethaf cost economaidd, cymdeithasol a dynol enfawr yr argyfwng, mae wedi creu cyfleoedd; er enghraifft, mae wedi helpu i danlinellu gwerth a chyfraniad posib mudiadau cymunedol; mae'r "caniatâd i ofyn am help ac i'w roi" yn sgil COVID-19 yn dangos i ni sut gall llesiant gael ei gefnogi o fewn cymunedau; mae wedi rhoi cyfleoedd i bobl ar draws cymunedau a'r sector cyhoeddus i ddwysau a datblygu sgiliau a phrofiad arweinyddiaeth, ac annog gweithredu cymunedol, sy'n sail i gryfhau'r ymateb i argyfyngau yn y dyfodol yn ogystal â datblygiad cymunedol hirdymor.

Ar 31ain Rhagfyr 2019, nodwyd yr achosion cyntaf o COVID-19. Lledaenodd y feirws yn gyflym a gwelwyd yr achos cyntaf (a gadarnhawyd) yng Nghymru ar 28ain Chwefror 2020. Ar y 3ydd Mawrth 2020, lansiwyd cynllun gweithredu'r DU, gyda'r bwriad o reoli ac yna oedi lledaeniad y feirws. Dilynwyd hynny gan ddeddfwriaeth frys, drwy roi pwerau i bob un o genhedloedd y DU i ymateb "yn gyflym ac effeithiol" i'r brigiad o achosion. Erbyn 12fed Mawrth, symudodd y DU i'r cyfnod oedi, ac erbyn 16eg Mawrth, cynghorodd Boris Johnson y dylai unrhyw gyswllt nad oedd yn hanfodol a theithio diangen ddod i stop, ac y dylai pobl ddechrau gweithio gartref lle bo'n bosibl, ac ar 20fed Mawrth, cynghorwyd busnesau lletygarwch a hamdden i gau. ([Ymchwil y Senedd, 2020](#)).

Ar 23ain Mawrth, dechreuodd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Roedd yn ofynnol i bobl aros gartref ar wahân i ddibenion cyfyngedig iawn (fel un cyfnod o ymarfer corff y tu allan unwaith y dydd ac i brynu bwyd neu nwyddau allweddol) a chaewyd ysgolion a busnesau a gwasanaethau nad oedd yn hanfodol. Ar 24ain Mawrth, cyhoeddwyd canllawiau i'r rheini a oedd yn cael eu hystyried yn hynod agored i niwed, a'u cynghori i aros gartref. Anfonwyd llythyron "gwarchod" at tua 130,000 o bobl yng Nghymru, lle roedd y gwasanaethau iechyd yn gwybod bod gan ganddyn nhw gyflyrau a oedd yn eu gwneud yn arbennig o agored i COVID-19 a'u cynghori i beidio â mynd allan, hyd yn oed i siopa. Yn ogystal, cynghorwyd pobl dros 70 oed i fod yn arbennig o ofalus ac i beidio â mynd i siopa os oedd modd osgoi gweud hynny.

Datblygodd y sefyllfa yn hynod o gyflym. Dywedodd awdurdodau lleol eu bod wedi cael wythnos i roi'r holl systemau angenrheidiol ar waith i gefnogi pobl. Er bod cymunedau wedi wynebu argyfyngau o'r blaen, er enghraifft, llifogydd, roedd nifer yn teimlo bod maint a natur yr argyfwng hwn yn ddigynsail yn ein hanes. Rhagwelwyd y byddai effeithiau'r cyfnod clo, yn enwedig ar bobl oedd yn gwarchod neu'n agored i niwed, yn:

- creu rhwystrau rhag cael mynediad at anghenion sylfaenol fel bwyd a/neu feddyginiaeth;
- colli cyflogaeth a chynnydd mewn tlodi o ganlyniad;
- cynnydd posib mewn esgeulustod a newyn ymhlith plant; a
- colli addysg.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyntaf o'r rhain ac nid yw, er enghraifft, yn ystyried effaith y cynllun ffyrlo, diogelu plant agored i niwed ac amharu ar addysg sydd wedi'u hystyried mewn mathau eraill o ymchwil (gweler e.e. [McCurdy, 2020](#); [Estyn, 2020](#)). Mae'r adroddiad yn canolbwyntio yn benodol ar waith cymunedau a mudiadau'r sector gwirfoddol (y cyfeirir atyn nhw fel "mudiadau cymunedol" yn yr adroddiad). Amcangyfrifir bod dros 31,000 o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru ([CGGC, 2020](#)), sy'n cwmpasu amrywiaeth eang iawn o rolau, gan gynnwys clybiau chwaraeon lleol, grwpiau celfyddydol, gwaith sy'n gysylltiedig ag iechyd, lleddfu tlodi a datblygu cymunedol, ac mae'r adroddiad hwn yn archwilio rôl y rheini, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn cymunedau penodol, wrth gefnogi pobl yn ystod cyfnod clo COVID-19.

Mae'r adroddiad yn ymdrin â phrofiadau'r cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ac rydym yn ymwybodol nad cyfnod clo mis Mawrth oedd diwedd yr argyfwng COVID-19, ac efallai y

bydd mwy o gyfnodau clo ar y gweill (adeg dadansoddi'r ymchwil ym mis Tachwedd 2020, roedd yr ail gyfnod clo yn dod i ben) ac y gall ymatebion newid dros amser, ond mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr hyn a ddysgwyd o'r cyfnod clo cyntaf.

## NODAU AC AMCANION

---

Comisiynodd [Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau](#) a phartneriaeth [Llechi, Glo a Chefn Gwlad](#) yr ymchwil hwn i ddeall i ba raddau roedd mudiadau cymunedol a oedd yn bodoli'n barod mewn cymdogaethau yn caniatáu cefnogaeth well i'w poblogaethau yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Edrychodd yr ymchwil hefyd ar sut roedd cyrff sirol yng Nghymru (yn bennaf awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol) yn cynllunio ac yn darparu cymorth i'r cymunedau hynny ac i ba raddau y gwnaed hynny gyda mudiadau cymunedol.

Amcanion yr ymchwil oedd deall:

- sut gwnaeth bodolaeth mudiadau cymunedol lleol sefydledig wahaniaeth i'r gefnogaeth a ddarparwyd i'w hardaloedd a sut roedd hyn yn cymharu â phrofiad cymunedau â nodweddion economaidd-gymdeithasol tebyg lle nad oedd mudiadau cymunedol yn bodoli (a allai serch hynny fod wedi profi gweithgareddau gwirfoddoli anffurfiol lleol);
- lle roedd mudiadau o'r fath yn bodoli, sut wnaethon nhw ymateb, ac yn benodol:
  - sut lluniodd eu bodolaeth a'u gwaith yr ymateb ledled y sir (gan gynnwys perthnasoedd rhwng mudiadau cymunedol a'r awdurdod lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a phartneriaid eraill);
  - sut gwnaethon nhw effeithio ar y gefnogaeth a ddarparwyd i'r gymuned ac os felly, pwy, e.e. pa grwpiau ac ardaloedd o fewn cymuned a elwodd neu a gafodd eu targedu/blaenoriaethu?); a
  - sut gwnaethon nhw ymateb a newid eu hunain (e.e. sut roedden nhw'n nodi'r angen, y ffyrdd gwnaethon nhw'n addasu eu gwaith gyda/i gefnogi cymunedau, newid y ffordd roedden nhw'n gweithio gyda phartneriaid, sut gwnaeth eu harweinyddiaeth ymateb ac addasu).

Roedd angen i'r ymchwil hefyd ystyried i ba raddau y canfu'r ymchwil dystiolaeth o bwysigrwydd grwpiau cymunedol i wella cydnerthedd lleol:

- beth gellid ei wneud i gadw neu ddatblygu perthnasoedd positif newydd rhwng mudiadau cymunedol a'r awdurdod lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a phartneriaid eraill, wrth i'r cyfnod clo ddod i ben ac wrth i ni wynebu heriau'r broses adfer economaidd?
- beth yw'r ffactorau allweddol o ran penderfynu pa fudiadau cymunedol a oedd yn arbennig o effeithiol wrth gynnig cefnogaeth i'w cymunedau? ac
- i ba raddau y gwnaeth unrhyw agweddau ar bolisi'r llywodraeth neu awdurdod lleol naill ai helpu neu rwystro gwaith mudiadau cymunedol i gefnogi cymunedau yn ystod yr argyfwng?

Astudiaeth ymchwil ansoddol oedd hon yn bennaf, yn canolbwyntio ar ddeall sut cafodd yr ymateb i'r argyfwng ei ddeall a'i brofi gan y rhai mewn awdurdodau lleol, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a mudiadau cymunedol a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol ag ef.

Canolbwyntiodd yr ymchwil ar saith sir yng Nghymru: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro a Wrecsam, gan roi croestoriad da o awdurdodau lleol, yn cynrychioli gwahanol fathau o ardaloedd (e.e. trefol, cymoedd, gwledig) yng ngogledd, gorllewin a de Cymru. Ar draws y saith ardal, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr o 19 o fudiadau a grwpiau cymunedol (n=19) a phob un o'r saith cyngor gwirfoddol sirol (n=10) ac awdurdodau lleol (n=14) ac mewn un achos, bwrdd iechyd lleol (n=1). Cafwyd ymateb ychwanegol drwy gyfweild â'r rhai oedd â chysylltiad agos â'r ymateb i'r argyfwng ar lefel gymunedol neu genedlaethol, fel cyngorwyr (n=4 wedi'u cyfweild) a sefydliadau cenedlaethol (n=3 wedi'u cyfweild) a thrwy ymuno â chyfarfod cynllunio bwyd yng Ngogledd Cymru.

Cafodd ymatebion pob grŵp a gafodd eu cyfweild eu triogli i helpu i ddilysu ymatebion ac i sicrhau dealltwriaeth, ac yna trafodwyd y canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg mewn gweithdai gyda chyfranwyr er mwyn profi (a dilysu) a chyfoethogi ac ehangu'r dadansoddiad.

Mae'r ymchwil hefyd wedi defnyddio a'i lywio gan astudiaethau eraill, gan gynnwys gwerthusiad Buddsoddi'n Lleol (ar y gweill); astudiaeth sydd ar y gweill gan Interlink sy'n edrych ar yr ymatebion i'r argyfwng yn Rhondda Cynon Taf, ymchwil a gomisiynwyd gan y Carnegie Trust ([Coutts et al., 2020](#)) a gwaith New Local sy'n edrych ar ymatebion cymunedol ledled y DU (heb ei gyhoeddi eto). Mae hefyd wedi cael ei lywio gan waith [Bartneriaid Talwrn](#) a'r enghreifftiau o [arfer da a nodwyd gan CLILC](#). Mae hyn wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd bod y canfyddiadau a gafwyd o sampl fwriadol o randdeiliaid mewn saith o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu cael eu cyffredinoli (gan fod y canfyddiadau, yn fras, yn unol ag astudiaethau eraill).

## PWYSIGRWYDD ASEDAU SY’N SEILIEDIG AR LEOEDD

Roedd natur yr argyfwng, gyda chyfyngiadau symud, yn pwysleisio pwysigrwydd yr asedau hynny sy’n “glwm” â lleoedd<sup>2</sup>, fel:

- asedau sefydliadol, fel mudiadau cymunedol a busnesau lleol;
- cyfalaf dynol y bobl sy’n byw mewn lle, gan gynnwys galluoedd a sgiliau arwain a rheoli (e.e. wrth gynllunio a chydlynu);
- cyfalaf cymdeithasol y bobl sy’n byw mewn lle, gan gynnwys cryfder rhwydweithiau cymdeithasol (fel cysylltiadau rhwng pobl, busnesau lleol, mudiadau cymunedol a’r awdurdod lleol); lefelau ymddiriedaeth yn y gymuned; a gwerthoedd a diwylliant y gymuned (fel traddodiad o gefnogaeth/cymorth cydfuddiannol ac ymdeimlad o ysbryd cymunedol); a
- cyfalaf naturiol yn/gerllaw’r lle (fel mynediad i gefn gwlad a’r arfordir).

### YMATEBION Y GYMUNED

---

Roedd mudiadau a grwpiau cymorth cydfuddiannol yn ased allweddol sy’n seiliedig ar leoedd a dyma ffocws yr ymchwil hwn. Chwaraeodd nifer o’r sefydliadau cymunedol hynny a oedd yn gweithio yn ystod yr argyfwng ran allweddol wrth nodi a defnyddio asedau sy’n seiliedig ar leoedd, fel:

- meithrin a chefnogi ysbryd cymunedol ac awydd pobl i helpu eraill drwy roi o’u hamser (gwirfoddoli), arian a rhoddion (e.e. cyfarpar diogelu personol (PPE) a bwyd);
- defnyddio rhwydweithiau a chysylltiadau cymdeithasol i gael gwybodaeth am bwy oedd angen cymorth a phwy allai gynnig cymorth i lifo ar draws cymunedau; ac
- annog a hyrwyddo arweinyddiaeth a gweithgareddau o dan arweiniad pobl mewn cymunedau.

Fel yr amlinellwn yn adran 7, roedd hyn yn hanfodol oherwydd byddai wedi bod yn anodd i bobl a sefydliadau ar lefelau uwch (e.e. lefelau sirol neu genedlaethol) fod wedi gwneud hyn mor effeithlon neu effeithiol. Er enghraifft, mewn un achos, ceisiodd yr awdurdod lleol gyfarwyddo a rheoli’r gweithredu yn lleol, a gwnaeth hyn danseilio a gwrthio gweithredu cymunedol o’r neilltu. Cafwyd pryderon hefyd, ar ôl ail-lunio a chau’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn 2018, a’r dirywiad o ran cyllid i gymunedau a grwpiau, bod llai o fudiadau cymunedol bellach nag oedd ddegawd yn ôl.

---

<sup>2</sup> Mae yna ffyrdd gwahanol o gategoreiddio rhai o’r asedau hyn, ac er enghraifft, byddai’r [fframwaith CLG](#) yn defnyddio “asedau cyhoeddus” i ddisgrifio “gwasanaethau, cyfleusterau ac amwynderau cyhoeddus lleol, fel canolfannau adnoddau a chymunedol, llyfrgelloedd, sefydliadau lleol”. Ar ben hynny, mewn cymunedau mwy dros dro, gall lefelau cyfalaf dynol a chymdeithasol fod yn gyfnewidiol ac yn lled glwm â lle yn unig.

### **Gofyn am help a rhoi help**

Fel y sylwodd nifer o weithwyr cymunedol, rhoddodd yr argyfwng "ganiatâd" i roi ac i ofyn am help, ac o ganlyniad, aeth eu cyrhaeddiad yn ehangach i'r gymuned. Oherwydd bod COVID-19 a'i fgythiad yn broblem i bawb, roedd llai o "gywilydd" ynglŷn â gofyn am help ac roedd pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus ynglŷn â chynnig cymorth, er bod terfynau'r gefnogaeth y gallai cymunedau eu cynnig hefyd yn glir. Mae'r cyfnod clo hefyd wedi rhoi pwyslais clir a manwl ar weithgaredd cymunedol ac ar grisialu'r "gadwyn gyflenwi" o ymdrech wirfoddol fel y gallai pobl weld a theimlo pa wahaniaeth roedden nhw a'u cymuned yn ei wneud. O ganlyniad, denodd bobl nad oedden nhw wedi bod yn weithgar yn eu cymuned o'r blaen (roedd hefyd yn rhoi pwrpas clir ac uniongyrchol i staff y sector cyhoeddus a gwirfoddol a oedd yn bositif i lawer).

## YMATEBION CYMUNEDAU A SIROEDD I'R ARGYFWNG

Archwiliodd yr ymchwil rolau pedwar chwaraewr allweddol:

- dinasyddion a/neu gymdogion da, grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID;
- mudiadau cymunedol;
- cynghorau gwirfoddol cymunedol; ac
- awdurdodau lleol.

### CYMDOGION DA A GRWPIAU CYMORTH CYDFUDDIANNOL/COVID

---

Yn gyffredinol, arweiniwyd yr ymatebion mwyaf lleol i'r argyfwng gan unigolion; yr hyn y gellid ei ystyried fel cymdogaeth dda, a grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID. Roedd y grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID yn grwpiau o bobl a drefnwyd gan arweinydd lleol a oedd weithiau'n aelod etholedig o gyngor (sir, tref neu gymuned), weithiau'n weithiwr cymunedol (ond yn gweithio mewn swyddogaeth breifat), ac weithiau'n unigolyn (neu grŵp o bobl) a ddaeth ymlaen i helpu. Daeth nifer fawr o'r grwpiau hyn i'r amlwg ac roedd gan lawer ohonyn nhw amrywiaeth eang o gysylltiadau yn eu hardaloedd; er enghraifft, yn Sir Benfro, roedd dros 100 o grwpiau hysbys ac mae gan safle Facebook 'Pembrokeshire Nextdoor' 2,362 o aelodau.

Bu unigolion a grwpiau cymorth cydfuddiannol wrthi'n ddyfal yn cysylltu â phobl, yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac yn sefydlu grwpiau Facebook a WhatsApp a defnyddio dulliau fel [Next Door](#), yn ogystal â chnocio ar ddrysau. Fe wnaeth hyn eu helpu i ddod o hyd i bobl a oedd eisiau help a/neu eisiau helpu, a chadw mewn cysylltiad â nhw. Yn ogystal â mynd i siopa a chasglu presgripsiynau, roedd yr unigolion a'r grwpiau hyn yn aml yn gweithio i wella llesiant ac i adeiladu rhwydweithiau cymorth. Soniodd y rhai a gafodd eu cyfweld am gynnal nosweithiau cwis lleol, partiön stryd a rhoi help gyda phethau fel garddio neu gerdded cŵn.

Wrth i ni archwilio ymhellach yn adran 8, mewn rhai achosion, cafodd rhai grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID eu cefnogi gan y gymuned leol neu fudiadau'r sector gwirfoddol, gan gynnwys Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a helpodd i ddarparu gwiriadau datgelu a gwahardd (DBS), codi arian, darparu PPE a chyfeirio pobl a oedd yn awyddus i wirfoddoli. Roedden nhw weithiau'n rhan o weithgareddau a gydlynwyd yn sirol, fel hybiau ac atgyfeiriadau llinell ffôn unigol, ond arhosodd eraill yn gwbl annibynnol.

### MUDIADAU A GRWPIAU CYMUNEDOL

---

Canolbwyntiodd yr astudiaeth hon ar y mudiadau cymunedol a gwirfoddol hynny a oedd yn eiddo i gymuned neu ardal benodol a'u rhedeg yn lleol. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, grwpiau gofalwyr, banciau bwyd, cymorth i rieni sengl, grwpiau cymorth i bobl

Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a'r rhai oedd yn cynnig cymorth iechyd neu anabledd, yn ogystal â sefydliadau datblygu cymunedol a lliniaru flodi.

### **Y rolau wnaeth grwpiau cymunedol eu chwarae**

Roedd tebygrwydd sylweddol rhwng gwaith rhai mudiadau cymunedol sefydledig a grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID; er enghraifft, roedden nhw'n aml yn gweithio'n rhagweithiol â phobl a oedd angen help a/neu eisiau helpu, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a chnocio ar ddrysau, ac wrth drefnu gwirfoddolwyr i siopa neu gasglu presgripsiynau. Gwnaed ymdrech i sicrhau nad oedd unrhyw orgyffwrdd. Serch hynny, fel yr amlinellir isod, roedd rhai mudiadau cymunedol sefydledig hefyd yn gallu gweithredu ar raddfa fwy ac yn gallu mynd i'r afael ag ystod ehangach o anghenion na grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID.

Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol yn sector amrywiol ac addasodd mewn sawl ffordd wahanol; er enghraifft, cysylltodd mudiad gofalwyr â phawb oedd ar eu rhestr bostio yn rheolaidd gyda galwad ffôn neu i roi help ymarferol a chymorth emosiynol lle bo angen; ail-drefnodd canolfan ddydd eu gweithgareddau er mwyn coginio a chludo bwyd i gartrefi pobl roedden nhw'n eu cefnogi, ac i eraill mewn ardaloedd gwledig gwasgaredig; dechreuodd clybiau rygbi goginio a chludo prydau poeth; a darparodd y rheini oedd yn gweithio gyda chymunedau BAME barseili bwyd a phrydau poeth gwahanol a oedd yn diwallu anghenion dietegol a diwylliannol gwahanol bobl a oedd gwarchod. Yn fras, gellir gosod y rolau a ddatblygwyd gan fudiadau cymunedol i'r categorïau canlynol:

- darparu a rhannu gwybodaeth;
- nodi'r rheini oedd angen help neu gefnogaeth;
- diwallu anghenion sylfaenol pobl, yn bennaf, bwyd a meddyginiaeth;
- mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol; unigrwydd a diflastod; a
- helpu pobl i ymdopi.

### **Darparu a rhannu gwybodaeth**

Darparodd nifer o fudiadau cymunedol wybodaeth amserol, hygyrch i bobl leol y gellid ymddiried ynddi; roedd enghreifftiau yn cynnwys mynd â thafenni i bob tŷ mewn tref fach wythnos cyn y cyfnod clo er mwyn sicrhau bod gan bawb fynediad i rif ffôn os oedd angen help; darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd fel bod grwpiau lleiafrifol yn gallu cael mynediad ati; cynhyrchu a dosbarthu cylchlythyron i bob tŷ wrth i'r cyfnod clo barhau, diweddarau pobl ynglŷn â beth oedd yn digwydd; ac ateb y ffôn i bobl oedd yn poeni am bethau fel hawlio budd-daliadau, iechyd meddwl a mynediad at arian parod<sup>3</sup>.

---

<sup>3</sup> Mae nifer o bobl hŷn yn dibynnu ar ymweld â'r swyddfa bost i gasglu arian parod bob wythnos.



### ***Nodi'r rheini oedd angen help neu gefnogaeth***

Canolbwyntiodd mudiadau cymunedol ar ystod ehangach o bobl a oedd angen help neu gefnogaeth na'r gwasanaethau statudol, a oedd yn gyffredinol yn targedu'r rhai oedd yn gyfarwydd iddyn nhw ac eisoes yn cael mynediad at wasanaethau (fel gwasanaethau cymdeithasol) neu a nodwyd fel rhai oedd mewn perygl oherwydd eu bod gwarchod. Roedd nifer o fudiadau cymunedol eisoes yn gweithio gyda phobl agored i niwed yn eu cymunedau na fyddai'n bodloni'r trothwyon am gymorth gwasanaethau statudol. Roedd y rhwydweithiau a oedd eisoes yn bodoli yn golygu y gellid cysylltu â'r bobl hyn yn gyflym a nodi eu hanghenion, ac roedd nifer o fudiadau cymunedol yn gallu defnyddio eu hadnoddau yn gyflym i gysylltu â phobl ac i gadw mewn cysylltiad. Roedd y rhain yn cynnwys teuluoedd a oedd eisoes yn cael mynediad at wasanaethau bwyd cynaliadwy, fel pantri cymunedol; pobl oedd yn cael cymorth iechyd meddwl a llesiant; pobl oedd â dibyniaeth ar alcohol a chyffuriau; pobl agored i niwed o grwpiau ethnig lleiafrifol, a'r henoed.

Fodd bynnag, roedd cysylltiadau o dŷ i dŷ, a rhannu gwybodaeth am eraill yn y gymuned roedd pobl yn poeni amdany'n nhw, yn golygu bod pob mudiad a oedd yn weithredol yn ystod y cyfnod clo wedi nodi mwy o bobl agored i niwed yn eu cymuned nag yr oedden nhw, neu'r gwasanaethau, yn gwybod amdany'n nhw o'r blaen; er enghraifft, disgrifiodd mudiad cymunedol sut yr awgrymwyd y dylent gysylltu ag aelwyd Pwylaidd lle mynegwyd pryder y gallent fod yn ei chael hi'n anodd ac na fyddent, o bosib, yn cael mynediad at wasanaethau neu gymorth.

Yn rhannol, roedd y cynnydd mewn angen o ganlyniad i'r cyfnod clo, wrth i bobl ddod yn agored i niwed, ond cafwyd enghreifftiau hefyd o bobl gyda gwendidau oedd eisoes yn bodoli yn cael eu nodi, a oedd yn ôl un person a gafodd gyfweiliad, "ddim ar radar unrhyw un". Cafodd pobl a fu'n byw ar hyd eu hoes mewn cymuned fach sioc o ddod o hyd i bobl nad oedden nhw'n gwybod dim amdany'n nhw a oedd angen cymorth. Mewn rhai achosion, arweiniodd hynny at atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol, ond os nad oeddent yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd am gymorth, fe'u cyfeiriwyd yn ôl yn aml at strwythurau cymorth cymunedol.

Wrth i'r cyfnod clo barhau, dangosodd mudiadau a grwpiau cymunedol sut gwnaeth pobl ddechrau wynebu caledi ariannol wrth iddyn nhw golli eu swyddi neu fusnesau, pobl mewn tai anaddas neu o ansawdd gwael yn wynebu misoedd o beidio â gallu mynd allan, a phwysleisiwyd anghydraddoldebau digidol a goblygiadau hynny, yn enwedig i blant a oedd methu â gwneud eu gwaith ysgol a phobl oedd yn methu â chadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau neu i siopa, bancio neu dalu rhent ar-lein.

### ***Darparu mynediad at fwyd a hanfodion eraill fel meddyginiaethau***

Gwelwyd tri maes craidd o angen o ran mynediad at fwyd:

- pobl a allai fforddio prynu bwyd ond ddim yn gallu cael mynediad i'r siopau, oherwydd eu bod yn hunanynysu neu ddim yn gallu mynd i siopa, fel rhieni sengl nad oedd i fod i fynd â'u plant gyda nhw i siopa ond heb neb i adael y plant â nhw;

- pobl na allai fforddio prynu bwyd oherwydd, er enghraifft, bod eu hincwm wedi gostwng neu oherwydd eu bod nhw eisoes yn ei chael hi'n anodd fforddio bwyd cyn yr argyfwng. Tyfodd y grŵp hwn yn gyflym wrth i'r cyfnod clo fynd yn ei flaen; a
- pobl lle roedd y parseli bwyd a gludwyd drwy'r rhaglen warchod yn anaddas<sup>4</sup>.

Roedd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y tri grŵp. Yr ymatebion cymunedol allweddol i hyn oedd siopa i bobl (rhywbeth y gwnaeth y grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID a weithiau staff mudiadau cymunedol), ehangu banciau bwyd yn sylweddol, fel y gwelir yn y blwch isod, a darparu prydau priodol wedi'u coginio.

### **Banciau bwyd newydd a sefydledig**

Datblygodd banciau bwyd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mewn un sir, tyfodd y tri banc bwyd oedd yn bodoli'n barod i dros 20 yn ystod y cyfnod clo, a sefydlodd nifer o leoedd fanc bwyd am y tro cyntaf. Daeth y ffordd roedd y banciau bwyd hyn yn gweithio yn fwy hyblyg o lawer. Bwriad model banc bwyd yw cynnig cymorth brys byr dymor, gyda gweithwyr proffesiynol yn atgyfeirio pobl am ddau neu dri diwrnod ar y mwyaf, er mwyn osgoi dibyniaeth ac annog ffyrdd mwy cynaliadwy o fynd i'r afael ag anghenion ([Trussell Trust, 2020](#)).

Serch hynny, yn ystod y cyfnod clo, roedd natur yr angen a'r cwmpas cyfyngedig ar gyfer ymateb cynaliadwy yn golygu bod y ffordd roedd pobl angen defnyddio banciau bwyd wedi newid. Sefydlwyd banciau bwyd newydd gan gymunedau, weithiau er mwyn osgoi rheolau'r banciau bwyd sefydledig, a soniodd rhai o'r rheini a gafodd eu cyfweld am weithio ar sail "ymddiriedaeth" a "gwybodaeth leol". Cafwyd hyd yn oed enghreifftiau o grwpiau'n rhedeg dau fanc bwyd ar yr un pryd, gydag un yn gallu bod yn fwy hyblyg. Ymhlith rhai gweithwyr proffesiynol, codwyd pryderon ynglŷn â cham-drin y system. Fodd bynnag, roedd rhai o'r grwpiau cymunedol a gafodd eu cyfweld yn fwy tebygol o sôn am yr angen i annog pobl roedden nhw'n gwybod eu bod mewn angen, i gael mynediad i'r banc bwyd.

Er y gwelwyd cynnydd mawr mewn banciau bwyd, ac fe wnaeth nifer o fudiadau cymunedol naill ai redeg banc bwyd eu hunain neu gefnogi eraill a oedd yn eu rhedeg (a'u helpu i godi arian, mynediad at PPE a rhoi lle iddyn nhw bacio parseli), dros amser, daeth

---

<sup>4</sup> Er enghraifft, pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheini ag anghenion dietegol penodol.

nifer yn bryderus am y bwyd oedd yn cael ei ddarparu a pha mor ddigonol ydoedd. Yn benodol, gwelwyd bod diffyg bwyd ffres a chynnwys maeth pecynnau bwyd (gan gynnwys y rhai a ddarparwyd i'r rheini oedd yn gwarchod) yn broblem, a datblygodd nifer o fudiadau cymunedol a banciau bwyd fentrau pantri cymunedol neu oergell cymunedol a oedd yn caniatáu iddyn nhw weithio gydag archfarchnadoedd i gasglu bwyd oedd dros ben neu'n agos at y dyddiad dod i ben a naill ai ei ddsbarthu'n gyflym neu goginio prydau poeth i bobl.

Wrth i'r cyfnod clo barhau, dechreuodd mudiadau cymunedol hefyd ddatblygu dulliau mwy cynaliadwy o ran mynediad at fwyd, gan gynnwys gweithio gyda chynhyrchwyr bwyd lleol i greu cadwyni bwyd byr; er enghraifft, ym Methesda, cyflymodd Partneriaeth Ogwen gynlluniau i greu gwefan e-fasnach i werthu nwyddau lleol a chynnwys gwirfoddolwyr i'w cludo i gartrefi pobl, drwy ddefnyddio car trydan. Gwelwyd enghreifftiau hefyd o brosiectau tyfu cymunedol a rhandiroedd yn cael eu datblygu, a mudiadau'n defnyddio eu hadnoddau i gomisiynu caffis a bwytai lleol (a oedd ar gau ac yn ei chael hi'n anodd goroesi) i goginio prydau bwyd i bobl oedd eu hangen.

Y tu hwnt i fwyd, canolbwyntiodd ymatebion cymunedol ar fynediad at hanfodion fel meddyginiaeth, trefnu i gasglu presgripsiynau a chronfeydd caledi ariannol brys, gan gynnwys credyd ffonau symudol, i helpu i fynd i'r afael â thlodi data.

### ***Mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol; unigrwydd a diflastod***

Roedd cefnogi plant i gael mynediad at ddysgu ar-lein, cerdded cŵn, mynd i'r afael ag ynysigrwydd a diflastod (e.e. drwy alwadau ffôn a phecynnau o weithgareddau) i gyd yn bwysig; er enghraifft, cludwyd pecynnau o weithgareddau i gartrefi lle roedd plant, weithiau wedi'u hategu â gweithgareddau ar-lein; cynhaliwyd rhai gweithgareddau garddio neu fannau agored gyda phlant oedd yn agored i niwed; sefydlwyd cyfarfodydd grŵp ar Zoom a phrosiectau dyddiaduron fideo; crëwyd fideos "ymweliadau rhithiol" gydag ysgolion ar gyfer pobl ifanc oedd yn wynebu newid mewn cyfnod allweddol, a sefydlwyd grwpiau crefft ar-lein. Yn ogystal, trefnodd rhai cymunedau nosweithiau cwis rheolaidd a pharfïon stryd yn yr haf i greu ymdeimlad bod y gymuned yn agosach ac yn fwy cysylltiedig nag erioed.

### ***Helpu pobl i ymdopi***

Roedd defnyddio gwasanaethau cymorth arferol, fel gwasanaethau iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau seibiant, yn golygu bod nifer o bobl a oedd yn agored i niwed cyn y cyfnod clo, yn ei chael hi'n anodd ymdopi. Yn aml roedd mudiadau cymunedol a gwirfoddol eisoes yn gwybod am y bobl hyn ac yn gallu cynnig cymorth.

Yn ogystal, roedd mudiadau cymunedol yn gallu nodi a chefnogi oedolion a plant a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi ag effaith yr argyfwng ar eu hincwm neu berthnasoedd teuluol, gan gynnig cymorth ymarferol, fel mynediad i gronfeydd caledi yn ogystal â chymorth emosïynol.

## **Rolau gwahanol**

Roedd y rolau gwahanol a chwaraeodd y mudiadau cymunedol a oedd yn weithredol yn ystod yr argyfwng yn dibynnu ar ffactorau fel:

- eu hasedau eu hunain (fel staff, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr presennol ac adeiladau cymunedol a hefyd asedau mwy anniriaethol fel ymddiriedaeth a rhwydweithiau cymdeithasol) a'u gallu i ddefnyddio asedau eraill yn y gymuned, fel gwirfoddolwyr a rhoddion o arian, bwyd a PPE wrth bobl leol, sefydliadau a busnesau;
- yr anghenion yn y cymunedau roedden nhw'n eu gwasanaethu; ymatebion eraill fel grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID ac awdurdodau lleol; a'u perthynas â'r rhain; ac
- eu strwythurau eu hunain a ffyrdd o weithio, gan gynnwys gweithgareddau a blaenoriaethau cyn yr argyfwng.

### **Mudiadau angor**

Gellir disgrifio mudiadau cymunedol mwy, sefydledig sy'n cael eu rheoli a'u harwain gan bobl leol ac sy'n gallu darparu arweinyddiaeth leol a chefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau eu hunain ac eraill, i gefnogi datblygiad cymdeithasol, economaidd a chymunedol, fel mudiadau "angor" o fewn cymuned. Mae ganddyn nhw staff sy'n cael eu talu, adeiladau, ac fel arfer, rhwydwaith cryf sydd eisoes yn bodoli yn y gymuned sy'n eu galluogi i addasu'n gyflym i fynd i'r afael ag anghenion ac i gefnogi unrhyw grwpiau cydfuddiannol sy'n datblygu.

## **Cyllido**

Ychydig iawn o fudiadau cymunedol neu wirfoddol sydd â chyllid fel arfer i'w galluogi i weithio'n gyffredinol i gefnogi cymuned; mae adnoddau wastad bron yn seiliedig ar brosiectau neu ganlyniadau. Serch hynny, yn ystod yr argyfwng, nododd nifer o gyllidwyr yn gyflym iawn eu bod yn barod i atal gwaith oedd yn seiliedig ar dargedau a chaniatáu i'w cyllid gael ei ddefnyddio i gefnogi anghenion cymunedol, gan alluogi mudiadau i fod yn hyblyg ac ymatebol. Er bod rhai wedi ail-drefnu eu gweithgareddau a'u cyfleusterau i ymateb i'r angen ar unwaith, gwnaeth eraill eu gwaith arferol drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau ar-lein ac ar y ffôn, a gwnaeth rhai addasu i gefnogi grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID yn lleol.

### **Y grwpiau hynny sydd wedi cymryd cam yn ôl**

Er bod nifer o fudiadau a grwpiau cymunedol (fel yr amlinellir uchod) wedi chwarae rôl weithredol ac allweddol yn ystod yr argyfwng, caeodd nifer sylweddol o fudiadau a grwpiau

cymunedol yn ystod y cyfnod clo, yn bennaf oherwydd eu bod yn dibynnu ar wirfoddolwyr a oedd yn hŷn ac yn gwarchod, neu oherwydd bod ymddiriedolwyr a phwyllgorau yn poeni bod staff a gwirfoddolwyr yn dod i gysylltiad a/neu'n lledaenu COVID-19, a'r rhwymedigaethau cysylltiedig ar gyfer y mudiad. Roedd yna hefyd fudiadau a oedd yn gweithio'n gyfan gwbl mewn adeiladau, fel canolfannau cymunedol, a oedd yn gorfod cau.

Ail-drefnwyd rhai o'r mudiadau a gaeodd yn wreiddiol cyn ail-agor eto ar ôl ychydig, weithiau gyda gwirfoddolwyr iau, newydd yn cymryd rhan, a defnyddio eu cyfleusterau (fel ceginau, neu neuaddau lle gellid paratoi parseli bwyd) i gefnogi'r gymuned. Fodd bynnag, roedd dryswch ynglŷn â chanllawiau agor canolfannau ac adeiladau cymunedol, a oedd yn gwneud eraill yn wylidwrs.

## CYNGHORAU GWIRFODDOL SIROL

---

Ceir 19<sup>5</sup> o Gyngorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru ar draws 22 o siroedd. Dangosodd y cyfnod clo y statws amrywiol iawn y mae'r rhain yn ei gael yn eu siroedd, o fod yn bartner allweddol a gwerthfawr i'r sector cyhoeddus; er enghraifft, yn Wrecsam, mae'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn aelod craidd o'r is-grŵp cydnerthedd cymunedol o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd wedi profi senarios "beth os" ac wedi blaengynllunio sut byddai'r sectorau yn cydweithio cyn y cyfnod clo; i fod wedi'u heithrio'n llwyr o'r prosesau cynllunio strategol o fewn yr awdurdod lleol, ac i bob pwrpas, yn gorfod gweithio'n gwbl annibynnol. Yn y rhan fwyaf o siroedd (ond nid pob un) mae'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol wedi chwarae rhywfaint o rôl wrth helpu i gydlynu a monitro beth oedd yn digwydd. Serch hynny, mae'r graddau y mae'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn cael ei ystyried fel partner strategol yn ymddangos fel pe bai'n ymwneud yn fwy â'r perthnasoedd a oedd yn bodoli'n barod rhwng y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol yn hytrach nag unrhyw amrywiad sylweddol mewn anghenion lleol neu seilwaith.

Roedd gwaith effeithiol ar draws sectorau yn cynnwys rhai Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn gweithio gyda phartneriaid y sector cyhoeddus i ddatblygu a hyrwyddo un man cyswllt (rhif ffôn fel arfer) a oedd yn rhoi eglurder i bobl ynglŷn â pha rif i'w ffonio am help; mapio'r cymorth oedd ar gael a nodi'r bylchau; a "dilysu" ymatebion cymunedol y gellid cyfeirio pobl atyn nhw'n ddiogel. Yn ogystal, roedd rhai rolau'n gyffredin i bob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn ystod y cyfnod clo:

- dosbarthu cyllid i grwpiau cymunedol a gwirfoddol;
- cefnogi gwirfoddoli; a
- darparu cyngor ac arweiniad.

---

<sup>5</sup> Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) – yn cwmpasu siroedd Casnewydd, Sir Fynwy a Blaenau Gwent

### ***Dosbarthu cyllid i grwpiau cymunedol a gwirfoddol***

Derbyniodd Cyngorau Gwirfoddol Sirol gyllid Llywodraeth Cymru drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) i'w ddosbarthu i grwpiau lleol, a chyfeiriodd cyllidwyr fel Plant mewn Angen gyllid drwyddyn nhw hefyd; cododd rhai Cyngorau Gwirfoddol Sirol arian ychwanegol drwy wneud cais ar ran mudiadau cymunedol a gwirfoddol. Datblygwyd systemau wedi'u symleiddio a oedd yn cynnwys cyn lleied o fiwrocratiaeth â phosib i ddosbarthu'r arian cyn gynted â phosibl. Fe wnaethant hefyd broceru trefniadau ar gyfer rhai o'r grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID oedd heb gyfrifon banc er mwyn gallu cael mynediad at gyllid.

### ***Cefnogi gwirfoddoli***

Yn sgil apêl genedlaethol am wirfoddolwyr i helpu Gwirfoddoli Cymru, plattform cenedlaethol sy'n recriwtio a chofrestru gwirfoddolwyr, gwelwyd nifer fawr o bobl yn dod ymlaen ac yn cael eu cyfeirio at Gyngorau Gwirfoddol Sirol, ac yna'n eu tro, eu cyfeirio at fudiadau gwirfoddol lleol (neu eu defnyddio eu hunain). Fe wnaeth Cyngorau Gwirfoddol Sirol addasu a symleiddio systemau'n gyflym ar gyfer gwiriadau DBS ymhlith gwirfoddolwyr.

### ***Darparu cyngor ac arweiniad***

Chwaraeodd Cyngorau Gwirfoddol Sirol rôl bwysig hefyd wrth roi cyngor ac arweiniad mewn meysydd fel diogelu, yn enwedig i fudiadau llai a grwpiau cymorth cydfuddiannol â llai o brofiad. Mewn rhai siroedd, roedd eu rôl yn ehangach, drwy gynhyrchu cylchlythyron i'w hanfon at gymunedau a oedd yn egluro'r canllawiau cenedlaethol a'u gweithredu'n lleol.

Targedwyd llawer o ymatebion yr awdurdodau lleol at y rheini oedd eisoes yn cael mynediad at wasanaethau statudol, fel gwasanaethau cymdeithasol, a'r rhai yr ystyriwyd yn agored i niwed neu'r rhai y nodwyd eu bod mewn perygl o ganlyniad i'r pandemig; yn bennaf, y 130,000 o bobl yng Nghymru a dderbyniodd lythyron gwarchod. At hynny, sefydlodd awdurdodau lleol ar draws yr ardal oedd a astudiwyd un man cyswllt, fel llinellau cymorth ar y ffôn. Defnyddiwyd y rhain i helpu i nodi'r rhai a oedd angen cymorth a/neu eu galluogi i gael mynediad at gymorth, yn bennaf drwy eu cyfeirio at wasanaethau cymorth awdurdodau lleol a hefyd mudiadau a grwpiau cymunedol. Fel yr amlinellwn yn adran 8, roedd awdurdodau lleol hefyd yn ymwneud â chydlynu a chefnogi gweithredu drwy fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymorth cydfuddiannol.

### ***Nodi a chefnogi'r rheini a dderbyniodd lythyron gwarchod***

Cynghorwyd y rheini ar restrau gwarchod i beidio â mynd allan a chymysgu â phobl y tu allan i'w haelwyd. Nid oedd angen cefnogaeth ar bawb yn y grŵp hwn, ond disgrifiodd awdurdodau lleol y broses o sefydlu pwy oedd angen cymorth neu beidio, fel tasg sylweddol. Mewn rhai achosion, gofynnwyd i staff y cyngor ffonio a/neu ymweld â phobl i nodi'r rhai a oedd angen cymorth ac i gydlynu â grwpiau lleol i sicrhau bod cymorth ar gael. Roedd nifer y bobl a dderbyniodd gymorth yn sylweddol; er enghraifft, dywedodd cynghorau Blaenau Gwent; Gwynedd ac Ynys Môn iddyn nhw helpu tua 1000 o bobl; dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot eu bod nhw wedi helpu 1,300 o bobl, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 1,560 o bobl a dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf iddyn nhw helpu 2,800 o bobl ([CGGC, 2020a](#), [CGGC, 2020b](#), [CGGC, 2020c](#), [CGGC, 2020d](#); [CGGC, 2020e](#)).

### ***Cymorth i grwpiau eraill***

Yn ogystal â nodi'r rheini oedd yn gwarchod, fe wnaeth awdurdodau lleol:

- barhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol eraill ac, er enghraifft, roedd pob awdurdod lleol yn gysylltiedig â chefnogi plant a phobl ifanc oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim drwy gyfuniad o barseli bwyd, talebau neu drosglwyddiadau ariannol;
- yn gysylltiedig ag ymdrechion i nodi eraill a oedd, er enghraifft, yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at fwyd fforddiadwy, drwy daflenni a chnocio ar ddrysau. Er bod awdurdodau lleol wedi cau gwasanaethau gwybodaeth cymunedol, fe wnaethon nhw sefydlu llinellau ffôn a allai ymateb i anghenion. Weithiau byddai'r rhain yn cael eu datblygu gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol a datblygwyd hybiau gwybodaeth; a
- chefnogi gweithredu gan eraill, gan gynnwys cymorth i raglenni bwyd cymunedol a banciau bwyd.

## CRYFDERAU A CHYFYNGIADAU YMATEBION CYMUNEDOL

Nododd yr ymchwil nifer o gryfderau allweddol oedd yn gysylltiedig ag ymateb mudiadau cymunedol a grwpiau cymorth cydfuddiannol, yn bennaf:

- cyflymder a hyblygrwydd eu hymateb;
- natur gynhwysol y cymorth a ddarparwyd; ac
- ymateb oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn neu'r person drwy ddefnyddio asedau lleol, gan gynnwys cyfalaf cymdeithasol mudiadau eu hunain (fel ymddiriedaeth a rhwydweithiau lleol).

Serch hynny, fel yr amlinellwn hefyd, nododd yr ymchwil nifer o gyfyngiadau neu wendidau a oedd yn gysylltiedig ag ymateb mudiadau cymunedol a grwpiau cymorth cydfuddiannol, gan gynnwys:

- pa mor fregus yw rhai mudiadau cymunedol;
- prinder arbenigedd arbenigol;
- anghysondebau yn y ddarpariaeth;
- peryglon dad-reoleiddio a gweithredu ar frys; a
- trafferthion cael gwirfoddolwyr.

## CYFLYMDER A HYBLYGRWYDD

Yn gyffredinol, y lleiaf ffurfiol oedd strwythur grŵp, mudiad neu wasanaeth, y cyflymaf y gallent addasu ac ymateb i anghenion. Roedd maint bach mudiadau cymunedol gyda'u pwyslais wedi'i dargedu'n benodol iawn ar un gymuned (o bobl neu ddaearyddiaeth) ynghyd â llai o syrthni sefydliadol, strwythurau rheoli llai a mwy gwastad lle roedd y rhai a oedd yn gwneud penderfyniadau yn agosach at y problemau, ynghyd â llai o fiwrocratiaeth, i gyd yn hwyluso penderfyniadau cyflymach. Gweithgareddau anffurfiol o dan arweiniad arweinydd neu grŵp lleol oedd y rhai mwyaf hyblyg ac ymatebol tra bod ymatebion y sector cyhoeddus yn llawer arafach ar y cyfan. Roedd nifer o awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi cyflymder ymateb y gymuned, gan sôn bod gweithredu cymunedol yn digwydd wythnosau'n gynt yn aml iawn, cyn iddyn nhw allu gweithredu:

*Roedden ni'n dal i fyny gyda'r gymuned yn y misoedd cyntaf...doedden ni ddim yn gallu symud mor gyflym â'r grwpiau cymunedol – fe wnaethon nhw gael eu ffurfio yn gynt na ni.*



## NATUR GYNHWYSOL Y CYMORTH A DDARPARWYD

---

Darparodd mudiadau cymunedol sbectrwm ehangach o gymorth i ystod ehangach o bobl nag y gallai gwasanaethau statudol (wedi'u cyfyngu'n aml gan drothwyon, meini prawf cymhwysedd, neu gynigion a thargedau cymharol sefydlog). Cynigiodd mudiadau cymunedol gymorth oedd wedi'i dargedu i'r rhai agored i niwed a chymorth i'r gymuned gyfan. At hynny, ym mhob ardal, fe wnaeth y gwaith cymunedol nodi a chefnogi pobl agored i niwed nad oedden nhw'n hysbys i'r gwasanaethau cyhoeddus, gan ddatgelu angen cudd.

## YMATEB SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN NEU'R PERSON DRWY DDEFNYDDIO ASED AU LLEOL

---

Mae natur hyperleol y gwaith ar lefel gymunedol (gweithio ar raddfa fach) ynghyd â hyblygrwydd mudiadau cymunedol a grwpiau cymorth cydfuddiannol, wedi galluogi ymatebion mwy cyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu sy'n canolbwyntio ar bobl a, lle bo angen, cyfranogiad a chefnogaeth barhaus. Aeth hyn y tu hwnt i ymyrraeth argyfwng a helpodd i sicrhau nad oedd pobl yn cael eu trin fel dioddefwyr goddefol, er enghraifft, roedd parseli bwyd a gludwyd gan gyflenwyr masnachol mewn perygl o wneud hynny; gallent, er enghraifft:

- siarad â phobl ar garreg y drws tra'n cludo bwyd, ynglŷn â'u hanawsterau, helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a nodi anghenion cudd;
- paratoi a chyflenwi bwyd priodol a oedd yn diwallu anghenion dietegol a diwylliannol aelwydydd unigol, mewn ffyrdd y byddai'n anodd i raglenni mawr cenedlaethol eu gwneud, yn sgil gweithredu ar raddfa fawr;
- cyfieithu canllawiau a gwybodaeth i ieithoedd lleol, a weithiau, i Gymraeg a Saesneg clir, mewn ffordd hygyrch a dealladwy;
- helpu i gysylltu'r rheini yn y gymuned a oedd eisiau helpu â'r rheini oedd angen rhywfaint o help.

Roedd grwpiau a mudiadau cymunedol hefyd yn gallu gweithio'n greadigol gyda busnesau lleol, gwasanaethau cyhoeddus ac aelodau'r gymuned i nodi, cysylltu a defnyddio asedau lleol ac i ddatblygu ymatebion i sialensiau a oedd yn seiliedig ar leoedd. Cafwyd enghreifftiau o fudiadau gwirfoddol yn gweithio i adeiladu cysylltiadau cynaliadwy ar draws y gymuned a'r economi leol, gan gynnwys:

- defnyddio cyllid i gomisiynu caffis a thai bwyta lleol i baratoi pryddau bwyd i bobl;
- datblygu rhandiroedd a phrosiectau garddio a thyfu cymunedol;
- sefydlu rhaglenni pantri/oergell cymunedol newydd;
- datblygiadau e-fasnach neu brynu'n lleol; a
- chefnogi gwirfoddolwyr ac arweinwyr cymunedol a ddatblygodd grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID.

## CYFALAF CYMDEITHASOL: YMDDIRIEDAETH A RHWYDWEITHIAU

---

Roedd cyfalaf cymdeithasol mudiadau cymunedol, yn bennaf ymddiriedaeth a rhwydweithiau lleol, ynghyd â natur yr argyfwng, a oedd yn ei wneud yn haws i bobl ofyn am gyngor ac i'w roi, yn hollbwysig wrth nodi anghenion ac i gysylltu ag asedau lleol a'u defnyddio i fynd i'r afael â'r anghenion hynny; fel y dywedodd un o'r bobl a gafodd eu cyfweld o awdurdod lleol:

*Pontiodd mudiadau cymunedol y bwloch. Dydy pobl ddim yn hoffi'r cyngor, ac roedden nhw wedi meithrin ymddiriedaeth o fewn y gymuned. Mae mudiadau cymunedol yn annibynnol ac yn llai swyddogol, mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n gallu siarad â nhw ac na fydd y sgwrs yn cael ei hailadrodd.*

Roedd staff a gwirfoddolwyr yn aml yn adnabod y bobl roedden nhw'n eu cefnogi, neu gallent ddod i adnabod pobl a chynnal eu cefnogaeth dros amser. Roedd hyn yn golygu bod mudiadau cymunedol a/neu grwpiau cymorth cydfuddiannol mwy anffurfiol yn gallu cynnal perthynas gyda phobl a theuluoedd, ac ymateb wrth i anghenion newid ac osgoi senario "drws tro" o gynnig cymorth brys byr dymor ac yna aros tan bod argyfwng arall cyn helpu eto.

## EDRYCH Y TU HWNT I'R ARGYFWNG

---

Ymateb i argyfwng oedd hyn yn bennaf. Roedd cyflymder a difrifoldeb yr argyfwng yn golygu bod pobl wedi'u gorfodi i feddwl yn y fan a'r lle, ond dros amser, dechreuodd rhai mudiadau cymunedol weithio ar gynllunio hirdymor. Helpodd yr argyfwng i danlinellu problemau isorweddol ac anghydraddoldebau strwythurol a oedd yn bodoli cyn y cyfnod clo. Mae llwyddiant ymatebion lleol a'r perthnasoedd newydd a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod clo, ac sy'n cael ei drafod ymhellach yn adran 8, wedi rhoi momentwm a hyder i grwpiau i geisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Dechreuwyd gwaith hefyd ar fentrau a fyddai'n parhau i adeiladu ar gydlyniant cymunedol ac i sicrhau bod y bobl a gafodd eu "darganfod" yn sgil yr argyfwng yn cael cymorth parhaus yn hytrach na chefnu arnyn nhw.

## PA MOR FREGUS YW RHAI MUDIADAU CYMUNEDOL

---

Nid pob mudiad cymunedol wnaeth ymdopi â heriau'r pandemig. Caeodd nifer sylweddol o fudiadau a grwpiau cymunedol yn ystod y cyfnod clo, yn bennaf oherwydd eu bod yn dibynnu ar wirfoddolwyr a oedd yn hŷn ac yn gwarchod, neu oherwydd bod ymddiriedolwyr a phwyllgorau yn poeni bod staff a gwirfoddolwyr yn dod i gysylltiad a/neu'n lledaenu COVID-19, a'r rhwymedigaethau cysylltiedig ar gyfer y mudiad. Serch hynny, roedd rhai o'r rhain yn gallu ail-agor eto wrth i wirfoddolwyr iau ddod ymlaen. Bu'n rhaid i fudiadau a oedd yn gweithio'n gyfan gwbl mewn adeiladau, fel canolfannau cymunedol, neu oedd yn ddibynnol ar incwm a gollwyd yn ystod y cyfnod clo, gau hefyd.

At hynny, cafodd gwytnwch y mudiadau cymunedol hynny a arhosodd ar agor ei herio hyd yn oed oherwydd gofynion corfforol ac emosiynol yr ymateb i'r argyfwng. Fe wnaeth yr argyfwng ysgogi pobl, a disgrifiodd nifer yr ymdeimlad o egni a phwrpas. Serch hynny, dros amser, roedd yr oriau hynod o hir a natur emosiynol flinedig y gwaith yn gadael ei ôl ar staff oedd yn cael eu talu a gwirfoddolwyr, gan fygwth y gallu i gynnal y gefnogaeth dros gyfnodau estynedig.

## PRINDER ARBENIGEDD ARBENIGOL

---

Er bod mudiadau cymunedol yn aml yn adnabod eu cymunedau yn dda, nid oedd ganddyn nhw wastad y sgiliau a'r wybodaeth arbenigol oedd eu hangen ar rai pobl ag anghenion difrifol a/neu gymhleth; er enghraifft, canfu llinellau ffôn cymunedol a sefydlwyd i ddelio ag argyfyngau eu bod yn cymryd galwadau nad oedd gwirfoddolwyr a staff wastad yn gwybod sut i ddelio â nhw, fel pobl a oedd yn poeni am eu swyddi neu'n teimlo fel cyflawni hunanladdiad.

## LOTERI COD POST

---

Yn wahanol i wasanaethau cenedlaethol a sirol, roedd mudiadau cymunedol lleol yn gweithredu ar raddfa a oedd yn caniatáu ymatebion i anghenion unigol ac i siapio a datblygu adnoddau lleol. Yn anochel, roedd hyn yn lleihau'r cwmpas ar gyfer darbodion maint ac yn golygu na fyddai ymateb cyson mewn cymunedau ar draws Cymru. At hynny, er bod natur organig, ddad-ganolog, o'r gwaelod i fyny, yr ymateb cymunedol yn gryfder allweddol, roedd hyn, ynghyd â gwahaniaethau yng nghryfder asedau sy'n seiliedig ar leoedd ym mhob ardal, yn anochel yn golygu bod ymatebion yn wahanol ar draws ardaloedd daearyddol a sector.

Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â rhoi cysondeb o flaen nodau eraill. Roedd yr ymateb o'r gwaelod i fyny, a yrwyd yn lleol, yn golygu bod y camau a gymerwyd fel arfer wedi'u teilwra'n well i'r gymuned roedden nhw'n ei gwasanaethu ac yn fwy effeithiol o'r herwydd. Felly, er enghraifft, soniodd un gymuned am fab fferyllydd lleol a oedd yn cludo presgripsiynau yn ei gar, felly nid oedd angen datblygu rhaglen cludo presgripsiynau gwirfoddol; disgrifiodd un arall sut agorodd ysgol leol y gegin ac yn paratoi mwy o brydau bwyd nag y gallent gludo, felly roedden nhw'n gallu gweithio gyda mudiadau eraill i gludo'r prydau i leoedd eraill.

I'r un graddau, un o goblygiadau pwysig amrywiaeth a maint y gweithredu anffurfiol, digymell, o dan arweiniad y gymuned, oedd ei bod yn anodd nodi lle roedd y bylchau yn y gefnogaeth gymunedol, neu i gynllunio'n strategol. Er nad oedd unrhyw un a gafodd eu cyfweld yn gallu adnabod unrhyw ardal neu gymuned lle na chafwyd cefnogaeth, nid oedd darlun clir chwaith o bwy, os unrhyw un, a gollwyd.

## PERYGLON DAD-REOLEIDDIO A GWEITHREDU AR FRYS

---

Fe wnaeth cyflymder yr argyfwng a'r cynnydd mewn gweithgaredd, o dan arweiniad unigolion a mudiadau oedd heb lawer o brofiad yn aml iawn, neu'n ceisio gweithio mewn ffyrdd newydd gyda grwpiau newydd, achosi rhywfaint o bryder o ran diogelu ac iechyd a diogelwch. Mewn rhai achosion, cymerodd grwpiau risgiau na fyddai'r sector cyhoeddus a/neu mudiadau gwirfoddol mwy sefydledig wedi'u cymryd. Yn wir, hwylusodd rai mudiadau cymunedol y gweithgareddau cymorth cydfuddiannol, ac weithiau, gwelwyd hyn fel ffordd o alluogi gweithredu cymdeithasol heb ysgwyddo'r risgiau atebolwydd y gallai mudiad sefydledig eu hwynebu.

Mynegwyd pryderon hefyd fod dulliau ac arferion a ddatblygwyd am resymau da wedi'u rhoi o'r neilltu neu eu hanwybyddu gan rai o'r grwpiau mwyaf newydd; er enghraifft, fel yr amlinellir yn adran pump, roedd rhai mudiadau sirol a chenedlaethol yn poeni am nifer y banciau bwyd a ddatblygwyd, a'r diffyg rheoleiddio neu reolau ynglŷn â chymhwysedd i gael mynediad iddyn nhw, a fyddai'n golygu y gallai pobl gam-drin y system. Fodd bynnag, roedd mudiadau a grwpiau cymunedol yn fwy tebygol o siarad am bobl a oedd angen bwyd yn gorfod cael eu hannog i ddefnyddio banc bwyd, ac ni soniwyd am unrhyw arwyddion o gam-drin o fewn y system.

## DEFNYDDIO GWIRFODDOLWYR

---

Cafwyd cynnydd enfawr yn nifer y bobl a gofrestrodd fel gwirfoddolwyr. Ond fel yr amlinellir uchod, bu'n rhaid i nifer fawr o wirfoddolwyr cyfredol gamu nôl oherwydd, er enghraifft, roedden nhw'n gwarchod, a daeth ton o wirfoddolwyr iau, ar ffyrlo o'u swyddi yn aml iawn, i gymryd rhan yn y gweithredu cymunedol. Yn aml, roedd Cyngorau Gwirfoddol Sirol a grwpiau cymunedol yn ei chael yn anodd defnyddio nifer y bobl a wirfoddolodd yn llawn; roedd hyn yn adlewyrchiad o'r:

- nifer fawr o bobl a oedd yn awyddus i wirfoddoli;
- cau nifer o fudiadau gwirfoddol a chymunedol a fyddai fel arall yn recriwtio ac yn defnyddio gwirfoddolwyr; a'r
- rolau cyfyngedig a oedd ar gael a gofynion cadw pellter cymdeithasol; dywedodd un mudiad ei fod yn llawer haws ac yn fwy diogel, o ran logisteg, i gael dau neu dri o wirfoddolwyr yn pacio parseli bwyd a'u cludo, er bod llawer mwy o bobl wedi cynnig helpu.

Ceir pryderon y gallai pobl fod wedi eu dadrithio ar ôl cynnig eu hunain ond heb allu gwirfoddoli, a chymryd cam yn ôl wrth iddyn nhw ddychwelyd i'r gwaith ac "amser yn fwy prin". Serch hynny, dywedodd rhai mudiadau fod y diddordeb mewn gwirfoddoli wedi parhau i fod mor uchel ddiwedd 2020 ag ydoedd yn ystod yr argyfwng.

## YMATEB AML-HAENOG

Mae'r darlun sy'n dod i'r amlwg drwy'r ymchwil yn ymateb aml-haenog i'r argyfwng gyda rolau penodol yn cael eu cyflawni gan y sector mwyaf perthnasol. Cafwyd eithriadau i'r model, ac yn aml, datblygodd yn organig yn hytrach na chael ei gynllunio'n fwriadol. Serch hynny, yn gyffredinol, roedd hi'n glir bod agweddau o'r ymateb i'r argyfwng ond yn gallu cael eu gwneud yn effeithlon ac effeithiol ar wahanol lefelau; roedd y rhain yn cynnwys gweithredu ar:

- lefel genedlaethol (gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru);
- lefel sirol (e.e. gan awdurdodau lleol neu Gynghorau Gwirfoddol Sirol); neu lefel leol (e.e. gan fudiadau cymunedol neu grwpiau cymorth cydfuddiannol).

### GWEITHREDU AR LEFEL GENEDLAETHOL

---

Roedd gweithredu ar lefel genedlaethol, er enghraifft, Senedd San Steffan (DU) neu Senedd Cymru (Llywodraeth Cymru), yn cynnwys:

- darparu cymorth ariannol i'r rheini na allai weithio yn ystod y pandemig ac oedd ar ffyrlo neu wedi'u diswyddo;
- darparu cyllid i roi adnoddau i gymorth sirol a chymunedol; a
- pennu a chyfathrebu polisiâu a rheoliadau cenedlaethol gan gynnwys, er enghraifft, canllawiau ar arferion gwaith diogel a gofynion cyfreithiol (e.e. ynghylch defnyddio a phrosesu data personol).

### GWEITHREDU AR LEFEL SIROL

---

Roedd gweithredu ar lefel sirol, er enghraifft, awdurdodau lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau brys, yn cynnwys:

- cyswllt wedi'i dargedu â phobl oedd yn cael eu cefnogi, gan amlaf gan wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol (e.e. datblygu rhestrau gwarchod);
- datblygu un man cyswllt, fel rhifau ffôn pwrpasol a chyfeiriaduron o gysylltiadau gwasanaethau, y gellid eu defnyddio i lywio'r broses gyfeirio;
- dosbarthu cyllid i fudiadau cymunedol a grwpiau cymorth cydfuddiannol;
- sefydlu fforymau i helpu i gydlynu gwaith pobl a grwpiau gwahanol a nodi'r bylchau a'r blaenoriaethau;
- darparu mynediad at PPE;
- darparu gwybodaeth/hyfforddiant ar ddiogelu;
- rheoli'r nifer fawr o bobl a wnaeth gynnig gwirfoddoli (e.e. drwy nodi lle gallent fynd) a darparu cymorth gyda gwiriadau DBS;
- nodi a darparu cymorth i'r rheini sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (fel trosglwyddiadau arian parod, talebau a pharseli bwyd); a
- darparu cyngor a gwybodaeth berthnasol yn lleol ar bolisiâu a rheoliadau i fudiadau a chymunedau.

## GWEITHREDU AR LEFEL GYMUNEDOL

---

Roedd gweithredu ar lefel gymunedol, er enghraifft, mudiadau cymunedol a grwpiau cymorth cydfuddiannol, yn cynnwys:

- adnabod pobl agored i niwed nad oeddent yn hysbys i'r gwasanaethau, a'u cefnogi a/neu eu hatgyfeirio at wasanaethau statudol;
- cefnogi llesiant cymunedol (y tu hwnt i anghenion brys) a darparu cefnogaeth hirdymor, barhaus sy'n hygyrch i'r gymuned gyfan;
- hwyluso a chefnogi arweinyddiaeth a pherchnogaeth leol o ran yr ymateb (e.e. gwirfoddoli lleol, pobl yn cyfrannu at fanciau bwyd a threfnu gweithgareddau lleol, cofnodi profiadau cymunedol);
- datblygu llinellau ffôn a sianeli cyfathrebu lleol eraill, fel sgysiau ar stepen y drws, a oedd yn cynnig gwybodaeth a chymorth diogel, dibynadwy, anfeirniadol<sup>6</sup>;
- darparu gwybodaeth glir y gellir ymddiried ynddi ar bolisiau a rheoliadau drwy sawl llwybr gan gynnwys cylchlythyron, cyfryngau cymdeithasol (Facebook a WhatsApp) a chyswllt drws i ddrws.

O ystyried maint a chymhlethdod yr argyfwng, ar ei orau, roedd y dull aml-haenog hwn yn golygu bod gwaith mudiadau cymunedol a grwpiau cymorth cydfuddiannol yn sail i waith llywodraeth genedlaethol a lleol a chwaraewyr allweddol eraill fel, lle bo'n berthnasol, cymdeithasau tai, gan helpu i fynd i'r afael â bylchau yn effeithlon ac yn effeithiol wrth gefnogi'r rhai a oedd eisoes yn hysbys i wasanaethau a/neu nad oeddent nhw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Lle gweithiodd yn dda, roedd hefyd yn enghraifft o sut gallai'r sector cyhoeddus a gwirfoddol/cymunedol gydweithio i ddiwallu anghenion pobl; fel y dywedodd cynrychiolydd awdurdod lleol:

*Byddwn yn cael trafferth gweld sut gallai'r gwasanaethau a ddarparwyd fod wedi llenwi'r bylchau a gwneud yr holl benderfyniadau [heb fudiadau cymunedol]. Roedd angen y cyfaint a'r sylw a roddodd y trydydd sector i ni.*

*Heb gyfraniad mudiadau cymunedol byddem wedi adleoli pobl ac wedi bod yn llai creadigol - byddai tuedd wedi bod i ddefnyddio rhestr y gwasanaethau, ac edrych ar yr hyn y gallem ei brynu.*

Nid oedd yr ymateb yn gweithio cystal pan roedd mentrau llywodraeth genedlaethol a lleol yn tansellio neu'n ceisio gwrthio gwaith mudiadau cymunedol a grwpiau cymorth

---

<sup>6</sup> Er enghraifft, dywedwyd wrthym y byddai pobl yn ofni galw llinell gymorth "swyddogol" i ddweud eu bod yn poeni ynglŷn â bwydo eu plant, ond yn fodlon i rannu eu pryderon â mudiad lleol dibynadwy.

cydfuddiannol o'r neilltu. Roedd hyn yn gymharol brin ar draws Cymru. Serch hynny, cafwyd ardaloedd lle methodd yr awdurdod lleol, er enghraifft, i ymgysylltu â mudiadau cymunedol neu wirfoddol. Yn ogystal, ystyriwyd enghreifftiau fel cyllido'r ymateb cenedlaethol i gasglu presgripsiynau ymhell ar ôl i grwpiau lleol drefnu ymateb, neu ymgais rhai awdurdodau lleol i "gymryd drosodd" y trefnu a wnaed yn lleol, yn fawr o help, ac ar ei waethaf, yn niweidiol.

Yn yr un modd, cafwyd rhai enghreifftiau, yn enwedig ymhlith y grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID a oedd newydd eu sefydlu, lle nad oedd gan bobl yr amser neu'r awydd i gydweithio â strwythurau a ddatblygwyd yn y sir; er enghraifft, mewn un sir nodwyd dros gant o grwpiau cymdogaeth newydd, ond dim ond tua thri chwarter o'r rhain a gyfrannodd at strwythurau hybiau'r ardal a ddatblygwyd gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol. Arweiniodd hyn at rai pryderon ynglŷn â dyblygu, er enghraifft, lle sefydlwyd nifer o fanciau bwyd newydd, gan gymhlethu ymdrechion i fapio lle roedd y bylchau.

## CYDWEITHIO A CHYDLYNU RHWNG MUDIADAU

Wrth archwilio'r perthnasoedd rhwng mudiadau a haenau gwahanol yr ymateb, archwiliodd yr ymchwiler:

- pwysigrwydd arweinyddiaeth gymunedol a sefydliadol;
- cydweithio a chydlynu rhwng mudiadau;
- cymorth, fel cyllid, cyngor ac arweiniad; a
- rhwystrau a chyfyngiadau: beth na weithiodd cystal.

## ARWEINYDDIAETH GYMUNEDOL A SEFYDLIADOL

Digwyddodd y cyfnod clo yn gyflym iawn a bu'n rhaid i wasanaethau a grwpiau lunio cynlluniau a datblygu ffyrdd newydd o weithio yn y fan a'r lle, ac fe wnaeth y sioc daflu gwasanaethau a grwpiau oddi ar eu hechel, gyda'r ymatebion yn aml yn adweithiol. Lleihawyd capasiti yn sgil tynnu staff o rolau'r rheng flaen a'r symudiad tuag at weithio gartref neu roi staff ar ffyrlo. Roedd arweinyddiaeth a mentrau lleol o fewn awdurdodau lleol, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a grwpiau cymunedol a chymunedau eu hunain, yn hollbwysig o ran defnyddio ymatebion lleol.

### *Ymestyn ar draws ffiniau*

Rhoddodd y cyfnod clo bwrpas cytûn a aeth y tu hwnt i wahaniaethau rhwng sectorau. Roedd hyn, ynghyd â rhwyddineb cael mynediad at gyfarfodydd drwy Zoom a MS Teams a rhoi'r gorau i sawl agwedd ar waith "arferol", yn golygu bod cyswllt rhwng gweithwyr proffesiynol (gan gynnwys staff awdurdodau lleol a rhai mudiadau cymunedol) wedi cynyddu a gwelwyd gwelliant mewn perthnasoedd personol mewn rhai ardaloedd. Roedd pobl nid yn unig eisiau gwneud gwahaniaeth, ond yn barod i ofyn am help, yn aml yn llai amddiffynnol (ac yn poeni llai am gadw enw da eu gwasanaeth neu fudiad ac yn fwy parod i dderbyn ei gyfyngiadau a'i wendidau) ac yn rhannu nodau cyffredin.

Helpodd y ffyrdd newydd o weithio, strwythurau newydd a phlatfformau ar-lein i chwalu'r ffiniau rhwng sectorau ac adrannau hefyd. Soniodd pobl am allu siarad am y tro cyntaf â'r rheini oedd yn gwneud polisiâu a phenderfyniadau. Adeiladodd gysylltiadau newydd â'r sector preifat hefyd. At ei gilydd, siaradodd pobl am deimlo'r gallu i gymryd rôl arweinyddiaeth a phŵer pwrpas moesol cytûn. O ganlyniad, dywedodd rhywun yn y cyfweiliad, eu bod wedi symud o wybod am rywun i'w hadnabod nhw a chael yr hyder i godi'r ffôn ac i siarad â nhw. Helpodd hyn i chwalu'r ymdeimlad o weithio'n ynysig a chynyddu'r cydweithio.



## Ffyrdd newydd o weithio

Mewn rhai achosion, galluogodd cyflymder yr argyfwng ffyrdd newydd o weithio a arweiniodd at fwy o hyblygrwydd ac ystwythder. Ar draws awdurdodau lleol, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a mudiadau gwirfoddol, newidiodd staff (oedd ddim ar ffyrlo neu'n gwarchod), gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr y ffordd roedden nhw'n gweithio, drwy ymateb yn hyblyg a defnyddio gwybodaeth ac asedau lleol yn ddychmygus. Mewn un ardal, codwyd yr angen am fathodynau adnabod ar gyfer pobl oedd yn ymweld â chartrefi. Fel arfer, dywedwyd y byddai wedi cymryd wythnosau i drefnu hyn, ond fe wnaeth aelod o'r gymuned â chefnidir mewn argraffu ddatrys y broblem dros nos. Gwnaed cais am grantiau a byddent yn cael eu derbyn o fewn dyddiau, gyda chyn lleied o ficrocratiaeth â phosib wrth i'r broses o wneud penderfyniadau gael ei datganoli, ac roedd pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i "fwrw ati". Yn ehangach, soniodd staff awdurdodau lleol ynglŷn â sut roedd gweithio y tu allan i'w hadran arferol wedi'u galluogi i fod yn fwy "dynol" wrth ryngweithio â galwyr; er enghraifft, fel y dywedodd un o'r rheini a gafodd eu cyfweld:

*Doedd gan bawb ar y llinell gymorth ddim profiad gofal cymdeithasol neu iechyd neu gymorth. Doedden nhw ddim yn gwybod y meini prawf ar gyfer gwasanaethau, fe wnaethon nhw gael straeon pobl yn gyffredinol, nid dim ond y wybodaeth a oedd yn berthnasol i'w hadran nhw, ac fe wnaethon nhw gydlynu pecynnau yn ymateb i hynny. Fe ofynnnon nhw gwestiynau sylfaenol, roedden nhw'n chwilfrydig, roedd ganddyn nhw ddiddordeb, roedden nhw'n fwy dynol.*

Fe wnaeth y symudiad hwn oddi wrth ddulliau adrannol at ymatebion person cyfan alluogi rhai awdurdodau lleol i ddod yn fwy cydweithredol a gweithio'n fwy effeithiol gyda mudiadau cymunedol; er enghraifft, fel y disgrifiodd un person:

*Nid dull yr awdurdod lleol oedd hwn; dull sirol ydoedd. Roedd angen cynnwys pob mudiad cymunedol - ymateb cymunedol ydoedd, nid ymateb ALL. Rydym wedi gallu gwneud y mwyaf o gryfder pob mudiad.*

Newidiodd maint enfawr yr angen ac annibyniaeth grwpiau cymunedol y ffordd yr oedd rhai awdurdodau lleol yn gweithio gydag eraill; fel y dywedwyd yn un o'r cyfweiliadau:

*Ein rôl ni oedd hwyluso a chefnogi yn hytrach na gorchymyn a rheoli.  
Fe wnaeth y gymuned ymgysylltu a threfnu ei hun. Ni allem reoli,  
roedd yn rhaid i ni ollwng gafael a chael ffydd.*

*Mae wedi gwneud i ni sylweddoli nad oes unrhyw un ohonom, ar ein  
pennau ein hunain, yn ddigon.*

### **Canolbwyntio ar yr hyn rydych yn ei wneud orau**

Ni wnaeth mudiadau a grwpiau cymunedol geisio mewn unrhyw fodd i newid rôl gwasanaethau statudol, fel gwasanaethau cymdeithasol. Mae materion yn ymwneud â, er enghraifft, mynd i'r afael â thrais domestig, neu ddiffygion tai neu addysg annigonol, yn gofyn am ymyrraeth arbenigol o'r tu allan i'r gymuned. Maen nhw hefyd yn codi materion sylweddol ynglŷn ag ymyrryd â phreifatrwydd pobl, lle mae mudiadau cymunedol yn ceisio ymyrryd yn y meysydd hyn. Roedd hi'n glir serch hynny bod sefydliadau a grwpiau cymunedol yn gyffredinol yn canolbwyntio ar yr hyn y gallent ei gyflawni'n dda, a oedd yn canolbwyntio ar lesiant ac atal argyfwng ynghyd â chefnogaeth ymarferol, yn hytrach nag er enghraifft ceisio darparu gofal cymdeithasol, ac fel oedd yn digwydd cyn yr argyfwng, fe wnaethant barhau i ategu gwaith gwasanaethau statudol eraill fel y gwasanaeth ieuencid.

## **CYDWEITHIO A CHYDLYNU RHWNG MUDIADAU**

Roedd cydweithio'n digwydd ar lefel sirol rhwng awdurdodau lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol, ond roedd yn amrywio o ran natur ac ansawdd rhwng siroedd. O fewn siroedd, cafwyd amrywiadau hefyd yn y cyfathrebu rhwng mudiadau cymunedol sefydledig a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol. Ar ei orau, gweithiodd Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac awdurdodau lleol yn agos â'i gilydd i gynllunio sut y gallent gefnogi gweithgareddau ar lefel gymunedol. Ar ei waethaf, gweithiodd Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac awdurdodau lleol yn gyfochrog â'i gilydd gyda fawr o gyfathrebu.

Mewn cyferbyniad, ac yn ôl y disgwyl o bosib, ni chafwyd lawer o dystiolaeth am waith strategol neu gydweithredol rhwng cyrff cyhoeddus a'r miloedd o fudiadau cymunedol a oedd yn ymwneud ag ymateb i'r argyfwng. Roedd ystod a maint y gweithredu anffurfiol, digymell, o dan arweiniad y gymuned, yn golygu ei bod yn anodd nodi lle roedd bylchau yn y gefnogaeth gymunedol, neu i gynllunio'n strategol. Er nad oedd unrhyw un gafodd eu cyf weld yn gallu nodi unrhyw feysydd neu gymuned lle na chafwyd unrhyw gefnogaeth, nid oedd darlun clir chwaith o bwy, os unrhyw un, a gollwyd.

Fodd bynnag, cafwyd rhai enghreifftiau o awdurdodau lleol yn darparu fframwaith sirol y gallai mudiadau cymunedol gyfrannu ato; er enghraifft, yr hybiau yn Sir Benfro a'r rhwydwaith bwyd yng Nghaerdydd, ac enghreifftiau o staff awdurdodau lleol yn gweithio gyda mentrau cymunedol. Gall y perthnasoedd newydd a ffurfiwyd mewn rhai siroedd olygu, wrth symud ymlaen, bod mwy o le i fudiadau cymunedol gael mwy o ddylanwad ac effaith ar bolisi ac ymarfer o fewn y sector cyhoeddus.

### **Perthnasoedd oedd yn bodoli'n barod**

O ystyried cyflymder yr argyfwng, roedd cael perthnasoedd a strwythurau oedd yn bodoli'n barod i adeiladu arnyn nhw neu i'w hail-drefnu yn werthfawr. Soniodd rhai mewn rolau strategol o fewn awdurdodau lleol a gafodd eu cyfweld bod perthnasoedd â'r sectorau gwirfoddol a chymunedol eisoes wedi gwella ac wedi canolbwyntio mwy ar bartneriaethau, oherwydd yr agenda atal a llesiant (wedi'i annog gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Roeddent yn gweld y cydweithio gwell yn ystod y cyfnod clo fel estyniad o hynny, ac yn adeiladu ar yr hyn a ddigwyddodd cyn hynny, a cham pellach ar y daith o wella gweithio mewn partneriaeth, newid y cydbwysedd tuag at gael ei arwain gan y gymuned a phartneriaethau; fel y dywedodd un o'r bobl mewn cyfweiliad:

*Sut gallwn ni adeiladu ar yr hyn a weithiodd yn dda? Pan edrychwch ar yr ICF a'r cronfeydd trawsnewid mae ganddyn nhw amodau a rheolaethau yr hen fyd. Mae angen cydbwysedd arnom ni wrth symud ymlaen - sut i fod yn greadigol ac yn ymatebol i'n galluogi i roi'r hyn maen nhw ei eisiau i gymunedau.*

Er bod yr argyfwng, yn y rhan fwyaf o siroedd yng Nghymru, wedi cryfhau perthnasoedd oedd yn bodoli'n barod rhwng llywodraeth leol, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a rhai mudiadau gwirfoddol, mae perygl na fydd hyn yn cael ei gynnal. Roedd llawer o'r rhyngweithio a ddigwyddodd ar lefel weithredol neu wrth ddarparu gwasanaethau, ac mae'n debygol bod llai o ymwybyddiaeth, ar lefel strategol neu bolisi, o fewn y sector cyhoeddus o'r rôl y mae mudiadau cymunedol yn ei chwarae. Gallai'r tynhau tebygol o arian cyhoeddus yn y cyfnod ar ôl COVID-19 arwain at ail-feddwl y ffordd y mae cymunedau'n cael eu cefnogi, neu gallai arwain at weithio'n fwy ynysig wrth i adrannau ddal gafael ar ba bynnag adnoddau sydd ganddyn nhw.

## **CYMORTH, FEL CYLLID, CYNGOR AC ARWEINIAD**

Tra bod asedau sy'n seiliedig ar leoedd wedi bod yn allweddol, felly hefyd y cyllid brys wrth Lywodraeth Cymru, ymddiriedolaethau a sefydliadau a busnesau preifat, wrth gefnogi a galluogi ymatebion cymunedol. Fel yr amlinellir yn adran 5, roedd nifer o gyllidwyr yn gyflym i ganiatáu i'r cyllid presennol oedd yn cael ei gadw gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol gael ei ddefnyddio'n hyblyg. Ategwyd hyn gan roddion cymunedol a lleol (e.e. bwyd gan

unigolion, archfarchnadoedd lleol a chynhyrchwyr bwyd) ac amser (e.e. gan wirfoddolwyr).

Roedd mynediad cyflym at gyllid, a oedd yn ymddiried yn y derbynwyr i'w ddarparu, yn galluogi gwaith ymatebol mewn cymunedau. Rhyddhawyd mudiadau sefydledig i ddefnyddio adnoddau hyd eithaf eu gallu a darparwyd grantiau i ryddhau pobl rhag ofnau goroesi a gadael iddyn nhw ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion lleol. Roedd y mynediad hawdd at gyllid hefyd yn dileu'r elfen gystadleuol gan hwyluso mwy o waith cydweithredol rhwng grwpiau a mudiadau. Esblygodd diwylliant "gallu gwneud" a olygai fod mudiadau sefydledig yn cefnogi grwpiau cymorth cydfuddiannol i gael mynediad at gyllid pan nad oedd ganddyn nhw gyfrif banc neu strwythur ffurfiol.

## RHWYSTRAU A CHYFYNGIADAU: BETH WNAETH DDIM HELPŪ?

---

Er gwaethaf yr enghreifftiau o gydweithio effeithiol rhwng llywodraeth leol a mudiadau cymunedol, nid oedd y rhain yn gyson ar draws Cymru. Ar eu gwaethaf, a diolch byth yn enghreifftiau prin, taseilliodd mentrau llywodraeth genedlaethol a lleol i wthio gwaith mudiadau cymunedol a grwpiau cymorth cydfuddiannol o'r neilltu; er enghraifft, cyllido ymateb cenedlaethol i gasglu presgripsiynau ymhell ar ôl i grwpiau lleol drefnu ymateb, neu ymgais rhai staff awdurdodau lleol i "gymryd drosodd" y trefnu a wnaed yn lleol, a oedd eisoes wedi'i wneud.

Ychydig o fudiadau cymunedol neu wirfoddol soniodd am weithio gyda'r sector cyhoeddus neu Gynghorau Gwirfoddol Sirol mewn ffordd strategol. Cafwyd enghreifftiau o gydweithio gweithredol fel addasu'r gwaith sy'n bodoli'n barod, er enghraifft, gyda meddygon teulu lleol neu wasanaethau iechyd meddwl, i ymateb i anghenion cyfredol, ond fawr ddim cyfranogiad y sefydliadau angor sefydledig mwy hyd yn oed wrth gynllunio. Roedd hynny weithiau oherwydd bod y gwaith strategol yn digwydd gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol (er ddim wastad), ac y byddai wedi bod yn ddefnydd synhwyrol o amser i gwrdd â grwpiau lluosog. Fodd bynnag, soniwyd am enghreifftiau hefyd o wasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda grŵp dethol o fudiadau cymunedol ac yn eithrio eraill, yn seiliedig ar berthnasoedd oedd yn bodoli'n barod, ac ymdeimlad o rwystredigaeth ymhlith rhai mudiadau bod cyfleoedd i gydlynu'r gweithredu wedi'u colli.

Roedd rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gallu cymryd rôl mwy strategol, ond fel y nodwyd uchod, siapiwyd hyn i raddau helaeth gan ansawdd y berthnasoedd a oedd yn bodoli eisoes. Adeiladodd y rhai a oedd eisoes â pherthynas effeithiol ar hyn ac roeddent yn gallu gweithio mewn ffordd a oedd yn cydnabod cryfderau pob sector; er enghraifft, fel y dywedodd un person a gafodd ei gyfweld o awdurdod lleol:

*Roedd perchnogaeth o'r grwpiau cymunedol yn bwerus iawn. Rydym wedi rhannu cyfrifoldeb mewn rhai pethau ac wedi trosglwyddo rhai pethau.*

Cafwyd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng rolau'r Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r awdurdod lleol, er enghraifft, lle wnaeth yr awdurdod lleol recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr eu hunain, tra bod y rôl hon wedi'i gwneud gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn y rhan fwyaf o siroedd.

## GWERSI ALLWEDDOL AR GYFER Y DYFODOL

Er y gall yr ymatebion ar draws yr ardaloedd a astudiwyd ei gwneud yn anodd cyffredinol, maen nhw hefyd yn cynnig cyfleoedd i adlewyrchu ar yr hyn a weithiodd yn dda a dysgu o hynny, yn ogystal â'r hyn na weithiodd cystal, ac fel yr amlinellwn yn yr adran olaf hon, mae nifer o themâu cyffredin yn dod i'r amlwg.

### BETH WNAETH HELPU YMATEBION CYMUNEDAU?

---

- Pobl yn eu cymunedau ac mewn mudiadau (boed yn fudiadau cymunedol neu'n sefydliadau'r sector cyhoeddus) yn cael eu grymuso i gymryd rolau **arweinyddiaeth**. Roedd hyn yn allweddol, er enghraifft, wrth nodi a defnyddio asedau a chysylltu'r rhai a oedd angen help gyda'r bobl hynny a'r asedau a allai eu helpu; ac i alluogi **staff a oedd yn cael eu talu** i chwalu'r rhwystrau rhwng sectorau ac adrannau.
- Y cynnydd anferthol mewn pobl yn cofrestru fel **gwirfoddolwyr**, a oedd yn gallu dod yn lle gwirfoddolwyr oedd yn gwarchod neu'n hunanynysu.
- Mynediad cyflym at **gyllid** a oedd yn ymddiried yn y derbynwyr i ddarparu'r hyn oedd ei angen ac yn galluogi gwaith ymatebol mewn cymunedau.
- **Awdurdodau lleol** oedd yn gefnogol ac yn hwyluso gan gydnabod cryfderau gwaith cymunedol ac yn gweithio i'w gefnogi.
- Roedd symud i ffwrdd wrth ddulliau adrannol mewn gwasanaethau cyhoeddus i **ymatebion person cyfan** yn galluogi rhai awdurdodau lleol i fod yn fwy cydweithredol ac i weithio'n fwy effeithiol gyda mudiadau gwirfoddol.
- Fe wnaeth awdurdodau lleol oedd eisoes â pherthnasoedd gwell gyda'r sectorau cymunedol a gwirfoddol (cyn COVID) roi mwy o bwyslais ar bartneriaethau yn ddiweddar oherwydd yr **agenda atal a llesiant**.
- Gweithredodd y ffordd yr ymatebodd y gymuned leol, yn wahanol i ymatebion cenedlaethol a sirol, ar **raddfa** a oedd yn caniatáu ymatebion i anghenion unigol ac i siapio a datblygu asedau lleol.
- Canolbwyntiodd mudiadau a grwpiau cymunedol ar **beth gallent ei ddarparu'n dda**, a oedd yn canolbwyntio ar lesiant ac atal argyfwng yn ogystal â chymorth ymarferol, yn hytrach na gofal cymdeithasol, er enghraifft.

### BETH WNAETH DDIM HELPU?

---

- **Mentrau** llywodraeth genedlaethol a lleol **a oedd yn tansellio** neu'n ceisio gwthio gwaith mudiadau cymunedol a grwpiau cymorth cydfuddiannol o'r neilltu.
- Prinder **meddwl yn strategol** ynglŷn â rôl mudiadau cymunedol neu wirfoddol mewn rhai siroedd. Roedd rhai Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gallu ymgymryd â rôl mwy strategol ond siapiwyd hyn i raddau helaeth gan ansawdd y perthnasoedd a oedd yn bodoli eisoes.
- Yr anawsterau wrth **nodi lle roedd y blychau o ran cymorth**.

- **Gwendid asedau sy'n seiliedig ar leoedd** mewn rhai cymunedau, lle er enghraifft, roedd seilwaith cymunedol mudiadau cymunedol yn fregus, gan gynyddu'r ddibyniaeth ar unigolion a grwpiau cymorth cydfuddiannol ac a allai fod wedi'i gwneud yn arafach ac yn anoddach i ysgogi ymateb.

## GOBLYGIADAU AR GYFER Y DYFODOL

---

Roedd natur yr argyfwng yn golygu bod asedau sy'n seiliedig ar leoedd yn hollbwysig, a chwaraeodd mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymorth cydfuddiannol/COVID rôl allweddol wrth nodi, cysylltu a defnyddio'r asedau hyn. Mae cael seilwaith o fewn cymuned, boed yn fudiad angor neu'n ganolfan gymunedol, yn rhoi ffocws ar gyfer gweithredu cymunedol. Nid yw'n rhagofyniad, gan fod gweithredu cymunedol wedi digwydd hyd yn oed lle nad oedd unrhyw mudiadau cymunedol yn bodoli, ond mae'n hwyluso ac yn cryfhau'r gweithredu.

Roedd natur organig, dad-ganolog, ymateb y gymuned yn gryfder allweddol o'r ymateb i'r argyfwng, ond mae'n her, er enghraifft, i geisio cefnogi a chydlynu gweithredu (e.e. i leihau dyblygu a nodi bylchau). Mae "gwneud dim niwed" yn bwysig fan hyn, ond mae'r argyfwng hefyd wedi dangos sut gall y wladwriaeth gefnogi gweithredu cymunedol drwy, er enghraifft, gynnig cyllid hyblyg. Mae ansawdd y berthynas rhwng mudiadau cymunedol a'r sector gwirfoddol a gwasanaethau cyhoeddus yn bwysig. Maen nhw'n gweithio orau pan maen nhw'n ystyried ei gilydd fel partneriaid gyda nod cyffredin ac yn cydnabod cryfderau ei gilydd a hefyd eu cyfyngiadau a'u gwendidau. Maen nhw'n defnyddio gwahanol ddulliau ac mae gwasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion allweddol tra bod gan fudiadau cymunedol y potensial, os caniateir iddyn nhw wneud hynny, i adeiladu cryfder cynaliadwy hirdymor a all atal yr anghenion allweddol hynny rhag codi ar draws y gymuned gyfan.

Mae angen adolygu'r berthynas gyllid/gyllido rhwng y gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol a chymunedol yn ogystal â'i bwrpas. Dangosodd y cyfnod clo sut gall cyllid anghystadleuol, heb ei dargedu, alluogi ffyrdd newydd o weithio ar lefel gymunedol. Mae atebolrwydd yn bwysig ond felly hefyd ymddiriedaeth mewn mudiadau cymunedol a'r cymunedau y maen nhw'n gweithio ynddyn nhw i nodi'r defnydd mwyaf effeithiol ar gyfer cyllid. Efallai y bydd gwerthuso mwy deallus sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, sy'n edrych ar y gwahaniaeth y mae cyllid yn ei wneud yn hytrach na chanolbwyntio'n fanwl ar yr allbynnau a ddarparwyd, yn bwysig yma.

Mae cyfathrebu rhwng gwaith cymunedol a strwythurau sirol neu genedlaethol yn anodd. Yn enwedig mewn adeg o argyfwng, mae grwpiau a mudiadau cymunedol yn debygol o ganolbwyntio ar gyflenwi yn hytrach na chyfarfodydd. Mae rhywfaint o ddibyniaeth ar Gynghorau Gwirfoddol Sirol i gynrychioli'r sector, ond roedd hyn yn dameidiog, ac mewn rhai siroedd, dywedodd mudiadau sefydledig eu bod heb gael bron dim cysylltiad o gwbl gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol. Efallai y bydd cynnal y perthnasoedd newydd a'r ffyrdd newydd o weithio a ddatblygwyd yn ystod yr argyfwng hefyd yn heriol, ac efallai y bydd yn profi'n haws mynd yn ôl i'r hen ffyrdd o weithio, a all fod yn fiwrocraidd a chanolbwyntio ar y gwasanaeth yn hytrach na'r unigolyn (e.e. anhyblyg a "gweithio mewn ffordd ynysig");

I gloi, er gwaethaf cost economaidd, cymdeithasol a dynol enfawr yr argyfwng, mae wedi creu cyfleoedd. Er enghraifft:

- y “caniatâd i ofyn am help ac i roi help” y gwnaeth COVID-19 ddangos i ni o ran sut gall llesiant gael ei gefnogi o fewn cymunedau (ac, er enghraifft, sut gellir mynd i'r afael â'r stigma ymddangosiadol o fethiant a ddaw o orfod gofyn am gymorth);
- mae wedi helpu i danlinellu gwerth a chyfraniad posib arweinyddiaeth, gweithredu a mudiadau cymunedol wrth gysylltu asedau a defnyddio asedau lleol neu asedau sy'n seiliedig ar leoedd gydag anghenion a chyfleoedd; a
- mae wedi rhoi cyfleoedd i bobl ar draws y sector cymunedol a'r sector cyhoeddus i ddwysau a datblygu sgiliau a phrofiad arweinyddiaeth, ac annog gweithredu cymunedol, sy'n sail i gryfhau'r ymateb i argyfyngau yn y dyfodol yn ogystal â datblygiad cymunedol hirdymor.



Coutts, P with Bowyer, G. Heydecker, R. Ormston, H., Pennycook, L., Thurman, B. and Wallace, J. (2020) *COVID-19 and Communities Listening Project: A Shared Response*. [Carnegie Trust UK](#)

Estyn (2020) *Adroddiad thematig ar ymateb y sector i'r pandemig COVID-19– Mawrth i Awst 2020* [Estyn](#)

McCurdy, C. (2020). *From locking down to levelling up: The past, present and future of Welsh living standards* [Resolution Foundation](#)

Nesom, S., Park, M. and Durrant, H. (2020). *Loneliness in the Lockdown*. [Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru](#)

Ymchwil y Senedd (2020) *Llinell amser coronafeirws: Ymateb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – Briff Ymchwil* [Ymchwil y Senedd](#)

Trussell Trust (2020) *What We Do: Our vision is for a UK without the need for food banks*. [Trussell Trust](#)

CGGC (2020) *Y Sector Gwirfoddol yng Nghymru*. [CGGC](#)

CGGC (2020a) *Gwasanaeth Ymateb Lleol i gefnogi Pobl Agored i Niwed (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent)* [CGGC, 2020](#)

CGGC (2020b). *Cyngor Gwynedd* [CGGC, 2020](#)

CGGC (2020c). *Grŵp Cydlynwyr COVID-19 ar y Cyd (Cyngor Sir Ynys Môn)* [CGGC, 2020](#)

CGGC (2020d). *Prosiect Diogel ac Iach i gefnogi preswylwyr diamddiffyn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot)* [CGGC, 2020](#)

CGGC (2020e). *Cefnogi Pobl Ddiamddiffyn Ynysig drwy'r Cynllun Cyfeillio (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)* [CGGC, 2020](#)